



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gwerthusiad o'r Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan

Adroddiad Ymchwil

CCLL 08/07 AY

Comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cyflawnwyd gan gwmni KM Research and Consultancy Ltd.

Awst, 2007

Cynnwys

1) Cefndir a dulliau	4
Cefndir	4
Methodoleg	4
Trosolwg ar ddulliau'r ymchwil	7
Rhesymeg ar gyfer y Llwybr	10
2) Y prif ddarganfyddiadau	12
Cyfweliadau Theorïau Newid	12
Arolwg post	15
Canlyniadau'r archwiliad chwe misol o ffurflenni ymholiad arferol	22
Cyfweliadau dilynol gyda phenaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd	23
Cyfweliadau gyda merched a ddaeth trwyddi	27
Ymweliadau'r astudiaethau achos	29
3) Materion yn codi o'r ymchwil maes yn ôl thema	40
Cyswllt Ymwelwyr Iechyd â cham-drin yn y cartref	40
Mabwysiadu egwyddorion y Llwybr a'r rhwystrau i wneud hyn	41
Cyfathrebu rhwng Ymwelwyr Iechyd a Bydwagedd	42
Anghenion cymorth a hyfforddiant Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd ar gyfer defnyddio'r Llwybr	43
Cyswllt gydag asiantaethau allanol	44
Hyder gweithwyr Iechyd wrth ddefnyddio'r Ymholiad Arferol	44
Cyfngiadau'r Llwybr	45
Yr oruchwyliaeth sydd ei hangen ar weithwyr Iechyd	46
Gweithredu	46
4) Polisi ar gyfer y dyfodol	49
Astudiaeth Delffi	49
Fforwm Polisi	51
5) Trosglwyddo'r Llwybr i sefyllfaoedd gofal Iechyd eraill	52
6) Crynodeb	56
7) Argymhellion	57
Atodiad un - tri: sgriptiau arolygon post ar gyfer Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd	60
Atodiad pedwar: Siart Llif y Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan	84
Atodiad pump: Cyfranogwyr yn Astudiaeth Delffi a'r Fforwm Polisi	85
Atodiad chwech: Y Fframwaith Rheoli a Gwerthuso Perfformiad Arfaethedig (y Fframwaith) ar gyfer y Llwybr Cam-drin yn y	87

Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan	
Llyfryddiaeth	90

1) Cefndir a methodoleg

Cefndir

Mae'r Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan (y Llwybr) yn gofnod cyfreithiol o ddarparu gofal sy'n rhoi dull mwy ffurfiol ar sail tystiolaeth i Fydwagedd ac Ymwelwyr lechyd o annog pobl i ddatgelu cam-drin yn y cartref ac o asesu lefel y risg a wynebwr gan y ferch a'r plentyn yn ei chroth. Lanswyd y Llwybr yn 2005 ar draws Cymru, a rhoddwyd hyfforddiant i'r holl Fydwagedd ac Ymwelwyr lechyd ar sut i ddefnyddio'r Llwybr tra'n codi ymwybyddiaeth am effaith a natur cam-drin yn y cartref. Mae'r Llwybr dal yn y broses o gael ei gyflwyno yng Nghymru ac mae tair Ymddiriedolaeth GIG dal heb ei weithredu eto.

Mae'r Llwybr ei hun yn cynnwys dwy ffurflen. Defnyddir y ffurflen gyntaf, RE DA1 (Ymholiad Arferol i Gam-drin yn y Cartref 1) i gofnodi'r ymholiad cychwynnol a wneir gan y Fydwraig neu'r Ymwelydd lechyd. Mae'r ail ffurflen, RE DA2 (Ymholiad Arferol i Gam-drin yn y Cartref 2) yn cael ei llenwi os yw cam-drin yn y cartref yn cael ei ddatgelu. Mae ffurflen RE DA2 yn cynnwys asesiad risg ac yn cyfeirio'r gweithiwr iechyd at gwrs gweithredu, gan ddibynnu ar lefel y risg a ganfuwyd.

Cefnogir y Llwybr gan becyn o adnoddau hyfforddiant sydd ar gael drwy wefan. Cafodd y pecyn adnoddau hefyd ei ddosbarthu fel copi caled i holl Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae gweithrediad y Llwybr yn cael ei gydlyn gan y Grŵp Rhwydweithio Ymwelwyr lechyd a Bydwagedd Cymru Gyfan (y Grŵp Rhwydweithio), sy'n cael ei gadeirio gan Fydwraig Ymgynghorol wedi ei lleoli yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg.

Rhoddwyd cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2, gwaith a wnaed gan Fydwraig Ymgynghorol ac Uwch Fydwraig wedi ei secondio o Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg i Lywodraeth y Cynulliad.

Yn ystod y gwerthusiad hwn, derbyniwyd cyllid pellach gan Lywodraeth y Cynulliad i gyflogi gweithiwr ar secondiad i gwmpasu a datblygu'r Llwybr i'w ddefnyddio mewn sefyllfaoedd Damweiniau ac Achosion Brys. Rhoddodd y Swyddfa Gartref hefyd gyllid i gyflogi gweithiwr ar secondiad i gwmpasu a datblygu'r Llwybr i'w ddefnyddio mewn sefyllfaoedd Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol ar draws Cymru.

Methodoleg

Trosolwg

Amcanion y gwerthusiad yw darparu:

- Asesiad o i ba raddau y mae'r Llwybr wedi cael ei weithredu ledled Cymru

- Archwiliad o effeithiau interim y Llwybr ar arferion ac agweddau Ymwelwyr Iechyd a Bydwagedd, yn ogystal ag ar ferched claf
- Asesiad o'r prif ffactorau a ddefnyddiwyd i sicrhau bod y Llwybr yn llwyddo i gyflawni ei ganlyniadau
- Asesiad o a ellir trosglwyddo'r Llwybr i sefyllfaoedd gofal iechyd eraill.

Yn ogystal, o ganlyniad i'r ymchwil, cafwyd cyfres o argymhellion ar gyfer datblygu'r Llwybr yn y dyfodol gan gynnig fframwaith i werthuso a monitro'r prosiect yn barhaus.


Dull y Gwerthusiad

Mae effaith cam-drin yn y cartref ar iechyd a'r rôl y gall gwasanaethau iechyd ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r broblem yn fater cymhleth (Humphries, 2007). Dylai methodoleg y gwerthuso ystyried y cymhlethdod hwn. Fel ymyriad cymhleth, roedd angen gwerthusiad ar y Llwybr a oedd yn ceisio deall y broses o niwed a sut y mae'n digwydd, yn ogystal â'r canlyniadau (Hunter a Killoran, 2004). Y rheswm am hyn oedd bod effeithiau a chanlyniadau'r Llwybr yn debygol o ddigwydd am nifer o resymau, sy'n anodd i'w 'rheoli' fel y byddent mewn dyluniad arbrolfol (Hunter a Killoran, 2004). Mae'r dull a ddewiswyd ar gyfer y gwerthusiad yn seiliedig ar Theori Rhaglen. Mae hyn yn golygu y gellir archwilio prosesau'r Llwybr, yn ogystal â'r canlyniadau, a'i fod yn seiliedig ar fethodoleg theori, yn enwedig gwerthusiad o theoriau rhaglen (Chen, 1990).

Theori'r Rhaglen

Mae theori'r rhaglen yn ymwneud â'r gwahanol 'barthau' neu themâu yng nghyswllt sut a pham y gall prosiect fod yn llwyddiannus neu beidio. Mae'r dull hwn yn gadael i werthuswyr nid yn unig ddeall effaith ymyriad neu brosiect ond hefyd i ddisgrifio a phriodoli'r achosion sydd wrth wraidd a'r rhwystrau i gyflawni'r effeithiau a'r canlyniadau sy'n ddymunol. Gan mai gwerthusiad interim ydyw, ceir mantais bellach o ddefnyddio methodoleg theori rhaglen oherwydd mae'r theori rhaglen yn caniatáu i wersi a ddysgir gael eu bwydo'n ôl i reolwyr a datblygwyr y rhaglen, er mwyn goleuo ei chyflwyniad yn y dyfodol. Yn y cyswllt hwn, roedd y gwerthusiad hefyd yn broses ffurfiannol ac nid yn ymwneud â dim ond mesur yr effeithiau yn erbyn y mewnbynnau (Creswell et al, 2007). Dangosir 'parthau' y dull hwn yn siart un, isod. Mae'r siart yn seiliedig ar fframwaith Chen yn ei 'Werthusiad ar Sail Theori' (1990).

Siart 1. Parthau'r gwerthusiad



Mae Tabl un isod yn dangos pa ffynonellau casglu data a ddefnyddiwyd i gyflawni gwahanol amcanion yr ymchwil.

Tabl un: Amcanion yr ymchwil a dulliau'r ymchwil

Amcan yr ymchwil	Dull yr ymchwil
Asesiad o i ba raddau y mae'r Llwybr wedi cael ei weithredu	- Archwilio'r wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflenni RE DA1 a RE DA2 - Cyfweiliadau dros y ffôn gyda Phenaethiaid Bydwragedd ac Ymwelwyr lechyd - Arolwg post
Archwiliad o effeithiau interim y Llwybr ar arferion ac agweddau Bydwragedd ac Ymwelwyr lechyd, yn ogystal ag ar ferched claf	- Cyfweiliadau 'theorïau newid' gyda phenaethiaid Bydwragedd ac Ymwelwyr lechyd - Cyfweiliadau ac ymweliadau safle'r 'astudiaethau achos' - Archwilio'r wybodaeth a gyflwynir ar y ffurflenni DA1 a DA2 - Arolwg post
Asesiad o'r prif ffactorau a ddefnyddiwyd i sicrhau bod y Llwybr yn llwyddo i gyflawni ei ganlyniadau	- Adolygiad o'r llenyddiaeth - Cyfweiliadau 'theorïau newid' gyda phenaethiaid Bydwragedd ac Ymwelwyr lechyd - Arolwg post - Cyfweiliadau gyda merched a ddaeth trwyddi - Ymweliadau'r astudiaethau achos
Asesiad o a ellir trosglwyddo'r Llwybr i sefyllfaoedd gofal ieuchyd eraill	- Cyfweiliadau 'theorïau newid' gyda phenaethiaid Bydwragedd ac Ymwelwyr lechyd - Astudiaeth Delffi a fforwm polisi

Trosolwg ar ddulliau'r ymchwil

Adolygiad o'r llenyddiaeth

Gwnaed adolygiad o'r astudiaethau, dogfennau polisi a'r canllawiau presennol i helpu i sefydlu'r brif resymeg a'r 'theorïau' y tu ôl i'r Llwybr. Edrychodd yr adolygiad o'r llenyddiaeth hefyd ar rwystrau posibl i gyflawni canlyniadau'r Llwybr.

Cyfweliadau theorïau newid

Cynhaliwyd y cyfweliadau theorïau newid i helpu i ddeall y prif 'theorïau' y tu ôl i'r Llwybr; mewn geiriau eraill, i ddeall y rhesymeg, y mewnbwn, y cyddestunau a'r canlyniadau disgwylidig. Roedd y cyfweliadau'n manylu ar y themâu a ganfuwyd drwy'r adolygiad o'r llenyddiaeth.

Cafodd aelodau o'r Grŵp Rhwydweithio Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan (y Grŵp Rhwydweithio), ac o grŵp llywio'r gwerthusiad, eu cyfweld. Roedd y cyfweliadau yn rhai lled-ffurfiol ac adolygwyd y cwestiynau gan grŵp llywio'r gwerthusiad cyn eu defnyddio.

Cynhaliwyd y cyfweliadau ar sail un-i-un dros y ffôn. Cafodd y cyfweliadau eu hysgrifennu a'u codio'n defnyddio meddalwedd rheoli data ansoddol arbennig o'r enw Weft QDA.

Arolwg post

Datblygwyd holiadur arolwg ar gyfer yr holl Fydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru, yn adeiladu ar themâu'r adolygiad o'r llenyddiaeth a'r cyfweliadau theorïau newid. Dosbarthwyd dau fersiwn o'r arolwg, un ar gyfer Bydwagedd a'r llall i Ymwelwyr Iechyd. Pwrpas yr arolygon hyn oedd canfod disgwyliadau'r rhai a holwyd i'r Llwybr a, lle'r oedd hynny'n berthnasol, eu hymateb i'r hyfforddiant.

Anfonwyd arolygon post ar yr holl Fydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd ar draws Cymru a'u dosbarthu drwy'r Penaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd. Hefyd, anfonwyd arolwg ar wahân at y Penaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd. Mewn rhai achosion, dywedodd y Penaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd wrth yr ymchwilydd nad oeddent wedi gweithredu'r Llwybr yn llawn ac y byddai, felly, angen fersiwn gwahanol o'r arolwg arnynt. Yn yr achosion hyn, anfonwyd ail fersiwn o'r arolwg allan, yn cynnwys adrannau ar wahân i'r staff hynny a oedd ac nad oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Roedd yr arolygon yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ffurfiol a lled-ffurfiol. Dyfeisiwyd y cwestiynau i dreiddio ac i ymchwilio i'r atebion a roddwyd. Roedd yr arolygon yn eithaf treiddgar ac yn rhoi cyfle i bwysu a mesur. Roedd yr arolygon yn gwbl ddi-enw ac anogwyd y rhai a holwyd i fod mor agored a gonest â phosibl.

Anfonwyd 2200 o arolygon allan i gyd a chafodd 253 o arolygon eu dychwelyd, sy'n gyfradd ymateb o 11.5%. Roedd y 253 ymateb yn cynnwys 31 o arolygon 'mewn cyflwr gweithredu cynnar' (cyfradd ymateb 31%) a 3 ymateb gan Uwch Fydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd (cyfradd ymateb 6%).

Roedd y gyfradd ymateb gyffredinol yn gyson ag astudiaethau tebyg lle gofynnwyd i'r rhai a holwyd roi gwybodaeth eithaf trylwyr (e.e. Macavoy a Kaner, 1996 ac 1998). Mae astudiaethau eraill gyda chwestiynau mwy ffurfiol wedi ildio cyfraddau ymateb uwch ond, ar gyfer y gwerthusiad hwn, roedd angen gwybodaeth a barn fwy ansoddol.

Asesiad o'r archwiliad o ffurflenni RE DA1 a RE DA2

Mae'r defnydd a wneir o ffurflenni Ymholiad Arferol i Gam-drin yn y Cartref un a dau (RE DA 1 a RE DA2) yn cael ei asesu'n gyson fel rhan o'r archwiliad gorfodol chwe misol o gadw cofnodion a wneir drwy arolwg cymheiriaid ar draws y GIG yng Nghymru, ac a gyflawnir gan bob Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru. Mae'r archwiliad chwe misol yn gyfle i goladu a chymharu gwybodaeth am y defnydd a wneir o ffurflenni'r Llwybr, gwaith a wneir gan gadeirydd y Grŵp Rhwydweithio, fel ymarfer ar wahân i'r archwiliad chwe misol ei hun. Archwiliwyd y wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses hon fel rhan o'r gwerthusiad presennol, i sefydlu lefelau gweithrediad y Llwybr a faint o waith papur a ddefnyddiwyd.

Cyfweliadau dilynol gyda Phenaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd
Dyfeisiwyd y cyfweliadau hyn i 'ddilyn' y pwyntiau allweddol a wnaed drwy'r arolwg post, a hefyd i gadarnhau rhai o ddarganfyddiadau'r arolwg. Cynhaliwyd y cyfweliadau 'dilynol' dros y ffôn gyda Phenaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd gyda'r nod o holi'n fwy manwl ynghylch rhai o brif ffactorau, rhwystrau ac effeithiau'r Llwybr. Recordiwyd y cyfweliadau cyn eu hysgrifennu a'u codio'n defnyddio meddalwedd codio arbenigol.

Cyfweliadau gyda merched a ddaeth trwyddi

Cafodd dwy ferch a ddaeth trwyddi eu cyfweld. Ni fu'n bosibl cyfweld mwy na hyn oherwydd roedd yn rhaid 'recriwtio' cyfranogwyr i gymryd rhan yn y cyfweliadau drwy asiantaethau cymorth arbenigol ac nid drwy weithwyr iechyd, oherwydd materion cyfrinachedd. Yn anffodus, nid yw asiantaethau cymorth yn cadw cofnodion rheolaidd ar darddiad achosion a gyfeiriwyd atynt. Felly, roedd yn anodd canfod pa ferched a oedd wedi eu cyfeirio drwy'r Llwybr. Cynhaliwyd a recordiwyd y cyfweliadau gyda chaniatâd penodol y cyfranogwyr. Cafodd y cyfweliadau eu hysgrifennu fel rhai di-enw ar gyfer yr adroddiad hwn.

Ymweliadau'r astudiaethau achos

Ymwelwyd â thair ardal Ymddiriedolaeth GIG ar draws Cymru. Pwrpas yr ymweliadau hyn oedd gweld yr union amgylchedd lle'r oedd y Llwybr yn cael ei ddefnyddio a chael cyfle i siarad â gweithwyr iechyd wyneb-yn-wyneb.

Roedd ardaloedd yr astudiaethau achos fel a ganlyn:

- Ardal wledig yn mewn cyflwr gweithredu cynnar
- Ardal drefol mewn cyflwr gweithredu blaengar
- Ardal gymysg mewn cyflwr gweithredu canolig.

Dewiswyd yr ardaloedd hyn i gynrychioli ystod o ardaloedd Ymddiriedolaethau ledled Cymru: gwledig, trefol a chymysg yn ogystal â rhai mewn gwahanol gyflyrau o weithredu'r Llwybr.

Cyfwelwyd Ymwelwyr Iechyd mewn un ardal a Bydwragedd mewn dwy arall. Cafodd y cyfweiliadau eu recordio, eu trosi'n ysgrifen a'u codio drwy ddefnyddio meddalwedd codio arbenigol.

Derbyniwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymweliadau'r astudiaethau achos gan Swyddfa Ganolog y Pwyllgorau Moeseg Ymchwil (COREC).

Astudiaeth Delffi

Cyflawnwyd Astudiaeth Delffi i bwyso a mesur prif ddarganfyddiadau'r ymchwil ac i geisio ennill consensws ynghylch pa brif ffactorau a ddefnyddir i sicrhau bod y Llwybr yn effeithiol ac ym mha gyd-destunau iechyd eraill y gellid cyflwyno'r Llwybr.

Mae Astudiaeth Delffi'n gweithredu fel pŵl piniwn o ryw fath. Mae'n cynnwys rownd systematig o holi grŵp o bobl sydd naill ai gyda gwybodaeth am neu ddiddordeb yn y pwnc. Mae'r atebion i'r cwestiynau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r grŵp cyfan (gydag eglurhad lle bo angen) i roi cyfle iddynt wneud penderfyniadau heb wrthdaro. Mae'r broses yn cael ei hailadrodd fel bo angen i sefydlu lefel dderbyniol o gonsensws.

Fforwm Polisi

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r ymatebwyr i Astudiaeth Delffi, a gyda rhanddeiliaid eraill, i drafod darganfyddiadau'r gwerthusiad ac i ystyried sut i oresgyn y rhwystrau a ganfuwyd. Un o ddibenion eraill y cyfarfod oedd meddwl am gamau nesaf y Llwybr ac ym mha feysydd eraill y gellid ei gyflwyno.

Mae manylion y rhai a gymrodd ran yn Astudiaeth Delffi a'r Fforwm Polisi ar gael yn Atodiad pump.

Ymatebwyr

Roedd nifer y rhai a ymatebodd i bob elfen o'r ymchwil fel a ganlyn:

- Cyfweiliadau 'theorïau newid' gydag aelodau o'r grŵp rhwydweithio: n=7
- Ymatebion i'r arolwg post: n=253
- Cyfweiliadau dilynol gyda phenaethiaid y Bydwragedd: n=10
- Cyfweiliadau dilynol gyda phenaethiaid yr Ymwelwyr Iechyd: n=14
- Ymweliad astudiaeth achos un: n= 7 Ymwelwyr Iechyd, n=4 merched claf
- Ymweliad astudiaeth achos dau: n=6 Bydwragedd
- Ymweliad astudiaeth achos tri: n=7 Bydwragedd
- Cyfweiliadau gyda merched a ddaeth trwyddi ac a gyfeiriwyd drwy'r Llwybr: n=2
- Astudiaeth Delffi: n=10
- Fforwm Polisi: n=12

Rhwystrau i'r ymchwil

Gan mai gwerthusiad interim o raglen genedlaethol oedd yr ymchwil, un rhwystr pwysig y daethom ar ei draws oedd y gwahanol gyflyrau gweithredu ar draws Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu na allai rhai ardaloedd ymateb i'r arolwg post yn ei fformat gwreiddiol a bu'n rhaid dosbarthu ail fersiwn fymryn yn wahanol ohono, yr arolygon 'cyflwr gweithredu isel' fel y cawsant eu galw. Hefyd, ni allai rhai gweithwyr ieuchyd fynychu'r hyfforddiant oherwydd salwch neu wyliau, felly ni allent roi barn am hyfforddiant y Llwybr. Cyflawnwyd yr arolwg post dros gyfnod y Nadolig, a allai fod wedi arwain at oedi gyda dychwelyd yr arolygon. Roedd yr arolwg hefyd wedi'i gynnal ar yr un pryd ag arolwg arall ar reoli'r gweithlu, a allai fod wedi lleihau'r ymatebion.

Rhwystyr pwysig arall oedd amserlen dynn yr ymchwil, drwy fod yn rhaid i elfen astudiaethau achos yr ymchwil gael ei chymeradwyo gan COREC. Roedd y broses hon yn unfaith gan olygu, mewn rhai achosion, mai dim ond rhybudd byr y gellid ei roi i ardaloedd yr astudiaethau achos.

Rhesymeg ar gyfer y Llwybr

Mae digonedd o dystiolaeth bod cam-drin yn y cartref yn digwydd yn gyson mewn cymdeithas, ac yn ystod beichiogrwydd. Tybir bod y ganran sy'n defnyddio trais yn erbyn eu partneriaid yn ystod eu beichiogrwydd rhwng 2.5% a 22% (Bacchus et al, 2003). Cam-drin yn y cartref yw'r achos mwyaf o forbidrwydd ymhlith merched rhwng 19 a 44 oed yn y DU, yn fwy na rhyfel, canser a damweiniau cerbydau (Llywodraeth y Cynulliad, 2005). Pan fydd merch yn disgwyl, gall effeithiau cam-drin yn y cartref gynnwys methgludo, y fam yn marw, y babi'n cael ei eni'n fuan neu'n pwyso'n isel ar ei enedigaeth, anafiadau i'r babi a babanod yn marw (Ramsay et al, 2002).

Yn ôl astudiaethau oddi mewn a'r tu allan i'r DU, mae merched sy'n profi cam-drin yn y cartref yn aml yn sôn am berthynas negyddol gyda gweithwyr ieuchyd proffesiynol, sy'n methu ag adnabod arwyddion cam-drin neu'n methu â chynnig cymorth pan fydd cam-drin wedi'i sefydlu (Bacchus et al, 2003; Gerbert et al, 1996). Ond yn y deng mlynedd diwethaf, mae cam-drin yn y cartref wedi dod i gael ei gydnabod yn gynyddol fel problem ieuchyd y cyhoedd fawr ymhlith staff ieuchyd proffesiynol, academyddion ac asiantaethau cymorth cam-drin yn y cartref arbenigol. Mae staff ieuchyd proffesiynol wedi cael eu cydnabod i fod â rôl unigryw i'w chwarae mewn cefnogi merched a phlant sy'n dioddef o gam-drin yn y cartref, drwy arferion fel yr ymholiad arferol a thrwy gofnodi cam-drin, gwneud asesiadau diogelwch a'u cyfeirio at fudiadau sy'n gallu rhoi cymorth iddynt (Adran Iechyd, 2000). Mae nifer gynyddol o ganllawiau a datganiadau sefyllfa wedi cael eu cyhoeddi gan gymdeithasau a chyrrff llywodraethu ieuchyd sy'n *'pwysleisio pa mor gyffredin yw cam-drin yn y cartref ac sy'n argymhell adnabod, asesu a chyfeirio oddi mewn a'r tu allan i'r gwasanaeth ieuchyd'* (Ramsay et al, 2002, t.314). Er enghraifft, mae Coleg Brenhinol y Bydwagedd (1997) a Nyrsys (2001) a'r Sefydliad Cenedlaethol er

Rhagoriaeth Glinigol (2003) wedi datblygu canllawiau ar gyfer adnabod a chefnogi merched sydd wedi dioddef cam-drin yn y cartref.

Mae cydnabod y rôl y gall staff iechyd proffesiynol ei chwarae, ynghyd â'r proffesiynau eraill fel yr Heddlu, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a gwneuthurwyr polisi lleol, wedi cael ei ddylanwadu gan adolygiad cynyddol o'r broblem cam-drin yn y cartref gan grwpiau ffeministaidd, sy'n annog inni ei gweld fel problem diogelwch cyhoeddus, troseddol neu iechyd y cyhoedd (Peckover, 2003). Mae ychwanegiadau pwysig diweddar i'r fframwaith polisi yng nghyswllt cam-drin yn y cartref yn cynnwys Deddf Trais yn y Cartref, Troseddau a Dioddefwyr 2004, Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Llywodraeth y Cynulliad: 'Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan' (Llywodraeth y Cynulliad, 2005) a'r 'National Action Plan on Domestic Violence' gan y Swyddfa Gartref (2005). Yn bwysig, bydd yr Adran Iechyd yn cyhoeddi canllawiau newydd i ymarferwyr iechyd cyn bo hir, 'Responding to Domestic Abuse: A Hand Book For Health Professionals', yn ymgorffori cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar argymhellion a wnaed i Weinidogion gan Grŵp Ymgynghorol yn cynnwys Coleg Brenhinol y Bydwagedd, Nyrsys, Obstetryddion a Gynaecolegwyr, Meddygon Teulu, Seiciatryddion a mudiadau cam-drin yn y cartref gwirfoddol.

Fodd bynnag, er gwaetha'r enillion a wnaed gan ddadleuon ffeministaidd sydd wedi arwain at gymryd cam-drin yn y cartref o ddifrif mewn rhannau o'r sector cyhoeddus, yn ôl ymchwil i ddealltwriaeth a thriniaeth Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd o'r broblem, dengys bod y persbectif ffeministaidd wedi bod yn fwy araf i wreiddio ymhlith y grŵp hwn (Peckover, 2003).

Dangoswyd bod y rhwystrau sy'n wynebu staff iechyd proffesiynol wrth fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref yn cynnwys: cyfyngiadau ar amser, diffyg amser cyfrinachol gyda merched, materion diogelwch i weithwyr iechyd, prinder staff, morâl isel ymhlith staff a phrofiadau personol Bydwagedd o gam-drin yn y cartref (Peckover, 2003). Mae ofn pechu yn erbyn y merched yn aml yn cael ei roi fel rheswm gan staff iechyd proffesiynol dros beidio ag ymyrryd (Scobie a McGuire, 1999).

Mae rhai astudiaethau wedi edrych ar farn merched claf ynghylch cael eu holi am gam-drin yn y cartref. Dengys yr astudiaethau hyn unwaith y mae merch wedi derbyn ymholiad arferol, eu bod fel arfer o blaid y polisi. Mae hyn yn wir am rai sydd wedi neu sydd yn profi cam-drin ac am rai sydd heb (Macey a Bewley, 2001).

Tystiolaeth o blaid yr ymholiad arferol neu 'sgrinio'

Yn ôl adolygiad gan Jean Ramsay a'i chydweithwyr yn 2005 o'r dystiolaeth o ba mor effeithiol oedd ymholiadau arferol i gam-drin yn y cartref, cafwyd bod 'ymyriadau gan y system' neu rai sy'n ceisio gwella '*ymateb mudiadau i gam-drin yn y cartref*' (t.20) yn gallu cynyddu cyfraddau cyfeirio at asiantaethau cymorth yn y tymor byr. Fodd bynnag, ni ddaeth Ramsay o hyd i ddigon o dystiolaeth i argymhell rhaglenni 'sgrinio'. Mae Taket a'i gydweithwyr (2003) yn gwahaniaethu rhwng 'sgrinio' ac 'ymholiad arferol'. Gyda'r naill, fel a ddiffinnir gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (Taket et al, 2003, t.673), defnyddir

dull safonol o holi neu brawf sy'n dilyn gweithdrefn, ac nid yw'n amrywio o le i le. Gyda'r Ymholiad Arferol, '*nid yw'r gweithdrefnau o reidrwydd yn rhai safonol ond gofynnir cwestiynau fel mater o drefn mewn rhai sefyllfaoedd neu os oes arwyddion o gam-drin.*' (Taket et al 2003, t. 674). Casgliad yr awduron yw bod ymholiad arferol yn fwy addas ar gyfer y cyd-destun gofal iechyd. Mae Taket a'i gydweithwyr yn dadlau bod achos cryf dros gefnogi ymholiad arferol i gam-drin partneriaid mewn nifer o sefyllfaoedd gofal iechyd. Proses o ymholiad arferol ac nid o sgrinio yw'r Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan.

Merched o gymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig a cham-drin yn y cartref

Mae'r broblem bod staff yn gyndyn neu'n methu â holi am gam-drin yn y cartref efallai'n waeth i ferched o gymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig (DLIE) (Thiara, 2005). Y rheswm am hyn efallai yw bod ofn cael eu gweld fel pobl hiliol neu ansensitif i ddiwylliannau eraill yn gallu '*gweithio fel sail i beidio ag ymyrryd*' (Thiara, 2005, t.4). Mae'r broblem hon, a ddisgrifir fel '*preifatrwydd diwylliannol*' (Thiara, 2005, t. 9), yn creu rhwystrau pellach i wasanaethau sy'n ceisio helpu merched o gymunedau DLIE.

2) Y prif ddarganfyddiadau

Mae'r prif bwyntiau dysgu o ddarganfyddiadau'r astudiaeth werthuso'n cael eu rhoi mewn blychau testun drwy gydol yr adroddiad.

'Cyfweliadau 'theoriau newid': beth ddylai'r Llwybr ei wneud?

Rhesymeg ar gyfer y Llwybr

Gofynnwyd i'r Bydwagedd a'r Ymwelwyr lechyd o'r Grŵp Rhwydweithio wneud sylw ar y rhesymeg gyffredinol ar gyfer y Llwybr. Helpodd y cwestiwn hwn i ddeall nodau ac amcanion a'r canlyniadau ar gyfer y Llwybr, er mwyn gallu mesur ei lwyddiant yn eu herbyn.

Y rhesymeg ar gyfer y Llwybr yw y dylai gyflwyno newid yn agweddau staff proffesiynol at gam-drin yn y cartref fel ei fod yn cael ei weld fel rhan o gyfrifoldeb Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd i geisio datrys y broblem. Mae'r Llwybr yn cael ei weld fel cyfrwng i newid arferion ac agweddau proffesiynol.

Roedd yr ymatebion a gafwyd fel a ganlyn:

'[Cyn y Llwybr] nid oedd unrhyw broses ffurfiol ac nid oedd gan staff awdurdod i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref; mae'r Llwybr a'r hyfforddiant yn newid agweddau a hyder i geisio datrys y broblem.'

'Yn hanesyddol, mae Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd yn ymwybodol o'r broblem ond yn gyndyn o ymyrryd neu o roi ymddiriedaeth yn y fantol, ond maen nhw'n ymwybodol bod lefelau cam-drin yn uchel iawn.'

'Dyfeisiwyd y Llwybr i dynnu sylw at y broblem o gam-drin yn y cartref fel nad yw'n gymaint o dabw.'

Y Brif Flaenoriaeth ar gyfer y Llwybr

Gofynnwyd i Fydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd wneud sylw ar beth yn eu barn nhw oedd y prif flaenoriaethau ar gyfer y Llwybr.

Y brif flaenoriaeth ar gyfer y Llwybr yw bod diogelwch merched a phlant yn gwella.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn 'beth yw'r brif flaenoriaeth ar gyfer y Llwybr?' fel a ganlyn:

'I ddiogelu merched'

'I hybu diogelwch'

'I sicrhau diogelwch i ferched a phlant'

'I hybu ymwybyddiaeth ymhlith staff proffesiynol a merched'

'Bod merched yn cael eu hadnabod ac yn derbyn cymorth i'w helpu i benderfynu ar beth ddylai eu canlyniad fod....ac i gadw plant yn ddiogel'.

'I leihau morbidrwydd y ffetws ac ymhlith merched'

Canlyniadau i ferched sy'n dioddef cam-drin yn y cartref

Gofynnwyd i'r Bydwagedd a'r Ymwelwyr Iechyd beth oedd y canlyniadau dymunol i ferched sy'n dioddef cam-drin yn y cartref.

Y canlyniadau dymunol ar gyfer y Llwybr, yn y tymor hir, yw hybu ymwybyddiaeth o'r risg o niwed ymhlith merched sy'n dioddef cam-drin yn y cartref ac annog merched i ofyn am gymorth.

Un o brif ganlyniadau dymunol y Llwybr i ferched sy'n dioddef cam-drin yn y cartref oedd newid agwedd, er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r risg o gam-drin yn y cartref. Fel y mae'r dyfyniad canlynol yn ei ddangos:

'Hunan ymwybyddiaeth o risg...mae'n glir iawn nad yw'r person sy'n dioddef yn ymwybodol weithiau o'r risg y mae hi'n ei wynebu.'

Canlyniadau i staff iechyd proffesiynol

Gofynnwyd yr un cwestiwn i'r Bydwagedd a'r Ymwelwyr Iechyd ynghylch beth oedd y canlyniadau dymunol i staff iechyd proffesiynol.

Canlyniadau dymunol y Llwybr i staff iechyd proffesiynol yw gwella eu gwybodaeth am a newid eu hagweddau proffesiynol tuag at gam-drin yn y cartref fel bod gweithwyr iechyd yn fwy parod i helpu.

Crynowyd yr ymatebion gan y dyfyniad canlynol:

'Y prif ganlyniadau yw y dylent deimlo'n gyffyrddus i ofyn y cwestiwn. Bod â phroses yn ei lle i ddelio â'r broblem. Bod yn fwy parod i ofyn. Bod â gwell gwybodaeth.'

Y ffactorau pwysicaf

Gofynnwyd i'r Bydwagedd a'r Ymwelwyr lechyd ystyried beth oedd y ffactorau pwysicaf yr oedd angen iddynt fod yn eu lle i gyflawni canlyniadau dymunol y Llwybr.

Teimlir mai hyfforddiant ac adnoddau staff yw'r ffactorau pwysicaf i sicrhau bod canlyniadau dymunol y Llwybr yn cael eu cyflawni.

Yn ychwanegol, soniodd rhai ymatebwyr am bwysigrwydd polisïau staff mewnol ar gam-drin yn y cartref:

'Bod â pholisi Adnoddau Dynol yn ei le i staff sydd hefyd yn profi cam-drin yn y cartref.'

Y prif rwystrau disgwylidig

Gofynnwyd i'r Bydwagedd a'r Ymwelwyr lechyd beth fyddai'r rhwystrau tebygol i weithredu'r Llwybr neu i gyflawni'r canlyniadau.

Soniodd y Bydwagedd a'r Ymwelwyr lechyd am ystod o rwystrau posibl i weithredu'r Llwybr. Mae'r rhain naill ai'n ymwneud â bylchau yng ngwybodaeth a sgiliau staff wrth ddelio gydag achosion o gam-drin yn y cartref neu'n rhwystrau a chyfyngiadau ymarferol fel diffyg adnoddau neu bwysau ar amser staff.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn egluro'r rhwystrau posibl hyn:

'Ddim yn gwybod sut i weithio gyda merched o leiafrifoedd ethnig a sut i ddelio gyda phroblemau cyfieithu'

'Efallai bod pryderon ynghylch problemau caniatâd ac amddiffyn plant, yr adnoddau sydd ar gael ac at bwy i gyfeirio pobl.'

'Cyfyngiadau ar amser. Efallai bod pryder ynghylch prinder amser'

Materion agwedd a diwylliant

Lleisiodd y Bydwagedd a'r Ymwelwyr lechyd bryder ynghylch parodrwydd neu allu staff i fabwysiadu prosesau newydd y Llwybr a'r cymorth y byddai angen arnynt efallai i oresgyn y problemau posibl hyn.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos rhai o'r pryderon oedd gan y rhai a holwyd ynghylch y rhwystrau posibl sy'n gysylltiedig ag agweddau staff a'u cyndynrwydd i fabwysiadu arferion newydd.

'Efallai bod ofn 'tynnu rhagor o helynt i'n pennau'.

'Creu'r cyfle i ofyn y cwestiwn – mae angen lefel wahanol o ymddiriedaeth a phroses o roi cymorth i'r staff perthnasol'.

'Mae hi dal yn ddyddiau cynnar ar y Llwybr ond y prif rwystr oedd bod staff iechyd ar y dechrau'n gyndyn mynd i'r afael â'r broblem, ond mae'r hyfforddiant wedi helpu'.

Rhwystrau logistaidd

<i>Mae'r rhwystrau logistaidd posibl i weithredu'r Llwybr yn gysylltiedig ag adnoddau neu amser gan staff.</i>
--

Roedd rhai rhwystrau i weithredu'r Llwybr ar y dechrau yn gysylltiedig â darparu'r sesiynau hyfforddi.

'Adnoddau prin – gallem ond fforddio sesiynau hyfforddi hanner diwrnod ond roedd angen sesiynau hyfforddi hirach arnom.

'Mae angen darparu'r hyfforddiant yn ehangach i gynnwys staff ysbyty er mwyn sicrhau bod y Llwybr yn cael ei ymestyn pan fydd merched yn yr ysbyty ac i sicrhau cydweithrediad'.

'Yn dilyn ei weithredu, roedd y pryderon yn ymwneud â'r llwyth gwaith'.

'Y prif bryder yw'r cynnydd posibl yn ein llwyth gwaith, a'r gwaith dilynol unwaith y datgelir unrhyw gam-drin. Nid oes llawer o adnoddau ar gael i wneud hyn'.

<i>Soniwyd hefyd bod diffyg polisïau cam-drin yn y cartref mewnol i staff iechyd yn rhwystr posibl.</i>

Teimlwyd, mewn rhai achosion, na allai staff ofyn y cwestiwn ynghylch cam-drin yn y cartref i'w cleientiaid os oeddent wedi'i brofi eu hunain. Ystyriwyd bod y broblem hon yn rhwystr posibl i weithrediad y Llwybr a bod yn rhaid rhoi sylw iddi cyn y gellid gweithredu'r Llwybr yn llawn.

Arolwg post

Disgrifir prif ddarganfyddiadau'r arolwg post isod. Oni nodir yn wahanol, mae'r canrannau yn cynrychioli'r holl ymatebion gwirioneddol a roddwyd i bob cwestiwn.

Problemau hanesyddol wrth ddelio gyda cham-drin yn y cartref fel rhan o ymarfer gweithwyr iechyd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio'n fyr unrhyw broblemau a gawsant yn y gorffennol gyda delio â cham-drin yn y cartref. Pwrpas hyn oedd asesu a oedd y Llwybr wedi rhoi sylw i'r problemau oedd gan weithwyr iechyd wrth ddelio gyda cham-drin yn y cartref. Roedd barn yr ymatebwyr wrth ateb y cwestiwn hwn yn bur amrywiol. Dyma'r problemau hanesyddol y soniwyd amdanynt amlaf:

- soniodd 18% fod partneriaid neu aelod arall o'r teulu yn bresennol ac na allent ddod o hyd i amser cyfrinachol ar eu pen eu hunain gyda'r ferch
- soniodd 17% am drafferthion codi'r mater o gam-drin yn y cartref yn wreiddiol
- dywedodd 16% fod merched yn methu neu'n gyndyn o dderbyn bod problem a bod hynny'n un o'r trafferthion. Roedd hyn yn cynnwys merched a oedd yn 'bychanu' difrifoldeb y broblem neu'n gwrthod derbyn bod cam-drin yn annerbyniol, a merched a oedd yn rhy ofnus i ddelio gyda'r broblem.

Roedd y materion na soniwyd amdanynt mor aml yn cynnwys:

- bod cam-drin yn y cartref yn rhy gymhleth i'r gweithiwr iechyd ddelio gyda fo
- cyfathrebu gwael rhwng asiantaethau fel yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chyda gweithwyr iechyd eraill
- cyfathrebu gwael rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd
- nad oedd gan weithwyr iechyd drefn na phroses glir yn ei lle i ddelio gyda cham-drin yn y cartref.

A wnaeth yr hyfforddiant helpu?

Holwyd yr ymatebwyr a oedd yr hyfforddiant wedi eu helpu i oresgyn y problemau hanesyddol yr oeddent wedi sôn amdanynt.

Crynhair yr ymatebion yn nhablau dau a thri isod.

Tabl dau: A wnaeth yr hyfforddiant helpu i oresgyn problemau wrth ddelio gyda cham-drin yn y cartref?

Yn rhannol	39%
Do	30%
Naddo	25%

Drwy eu rhannu'n broblemau hanesyddol y soniwyd amdanynt amlaf, teimlwyd bod yr hyfforddiant wedi helpu yn y ffyrdd canlynol:

Tabl tri: ym mha ffordd wnaeth yr hyfforddiant helpu?

Problem hanesyddol	Do	Naddo	Yn rhannol
<i>Codi'r mater o gam-drin yn y cartref a chael yr hyder i'w drafod gyda merched</i>	35%	4%	58%
<i>Y partner yn bresennol / problemau gyda dod o hyd i amser cyfrinachol gyda merched</i>	12%	51%	37%
<i>Merched yn gyndyn o dderbyn bod angen delio gyda cham-drin yn y cartref</i>	10%	30%	45%

Holwyd yr ymatebwyr ymhellach am unrhyw fylchau a oedd efallai yn yr hyfforddiant. Dim ond dau fath o ymateb a dderbyniwyd:

- teimlai 10% o'r rhai a holwyd y byddent wedi hoffi derbyn mwy o gymorth a chynghor ynghylch beth i'w wneud ar ôl datgelu, a sut i ddod o hyd i gymorth allanol neu sut i ddelio gydag asiantaethau allanol
- dywedodd 15% o'r rhai a holwyd bod amser wedi mynd heibio ers yr hyfforddiant a gweithredu'r Llwybr. Yn enwedig yn achos yr Ymwelwyr Iechyd.

Y 'bylchau' eraill mewn hyfforddiant na soniwyd amdanynt mor aml oedd:

- dim digon o ffocws ar rôl Ymwelwyr Iechyd a gormod ar rôl Bydwagedd
- bod angen cymorth pellach ar ôl yr hyfforddiant. Codwyd y thema hon mewn atebion eraill i'r arolwg.

Lefelau hyder wrth ddelio gyda cham-drin yn y cartref ar ôl derbyn yr hyfforddiant

Gofynnwyd i'r ymatebwyr grynhai eu hyder gydag ystod o agweddau ar ddelio â cham-drin yn y cartref, yn dilyn eu hyfforddi. Gallai'r rhai a holwyd ddewis o blith y datganiadau canlynol i adlewyrchu lefel eu hyder:

<i>Ydw, rwyf yn teimlo'n hyderus yn gwneud hyn</i>	<i>Rwyf yn teimlo'n well yn gwneud hyn ond dal braidd yn ansicr</i>	<i>Rwyf dal ddim yn teimlo'n hyderus yn gwneud hyn</i>	<i>Ni wnaeth yr hyfforddiant roi sylw i hyn o gwbl</i>
--	---	--	--

Roedd y datganiad 'nid oedd hyn yn bwysig imi' hefyd yn opsiwn, ond dim ond dau a ddewisodd yr ateb hwn. Sgoriwyd yr ymatebion rhwng un a phedwar, gydag 'un' yn cynrychioli'r mwyaf hyderus a 'pedwar' y lleiaf hyderus.

Dengys tabl pedwar isod y lefelau hyder gyda phob agwedd ar ddelio â cham-drin yn y cartref. Dengys y tabl sgôr cyfartalog a chanol yr holl atebion dilys. Mwy'n byd y sgôr, lleia'n byd o hyder a fynegwyd.

Tabl pedwar: hyder ar ôl derbyn yr hyfforddiant

Agwedd ar ddelio gyda cham-drin yn y cartref	Sgôr hyder cyfartalog	Sgôr hyder canolig
Gallu gofyn y cwestiwn am gam-drin yn y cartref fel mater o drefn	1.8	2
Gallu dod o hyd i amser cyfrinachol ar eu pen eu hunain i ofyn y cwestiwn am gam-drin yn y cartref	2	2
Gallu delio gyda merch na allwch ei gweld ar ei phen ei hun drwy gydol ei beichiogrwydd	2.2	2
Gallu llenwi'r ffurflen RE DA 1 gyda merched	1.9	2
Gallu llenwi'r ffurflen RE DA 2 gyda merched sydd wedi datgelu cam-drin yn y cartref	2	2
Gallu cyfeirio merch sydd wedi datgelu cam-drin	1.8	2
Gwybod beth i'w wneud wedyn, unwaith y byddwch wedi cyfeirio merch sydd wedi datgelu cam-drin yn y cartref	2.2	2
Gwybod lle mae eich cyfrifoldebau'n dechrau a gorffen gyda merched sy'n dioddef cam-drin yn y cartref	1.9	2
Gallu gweithio gyda Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd i sicrhau bod y cymorth yn parhau pan fydd merch wedi datgelu	1.5	1
Gallu rhannu gwybodaeth a gwybod o dan ba amgylchiadau i wneud hynny gyda thimau Amddiffyn Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol	1.5	1
Gallu rhannu gwybodaeth a gwybod o dan ba amgylchiadau i wneud hynny gyda'r Heddlu	1.6	2
Gwybod lle i fynd am wybodaeth a chymorth pellach ar gam-drin yn y cartref i gleientiaid	1.5	1
Gwybod lle i fynd am wybodaeth a chymorth pellach gyda cham-drin yn y cartref os ydych chi neu gydweithiwr / ffrind wedi dioddef ohono	1.6	1

Dengys Tabl pedwar mai problem dod o hyd i amser cyfrinachol ar eu pen eu hunain gyda merch i wneud ymholiad ynghylch cam-drin yn y cartref, a gallu llenwi'r ffurflen RE DA 2, oedd y pethau oedd gan weithwyr iechyd leiaf o hyder yn eu gwneud.

Roedd y lefel hyder yn gyffredinol a ddangoswyd o'r ymarfer hwn yn eithaf da, gyda sgôr cyfartalog o 1.7 (canolig 2).

Cefnogaeth yn gyffredinol i'r Llwybr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu lefelau cefnogaeth yn gyffredinol i'r Llwybr gyda'r cwestiwn canlynol:

"I ba raddau y byddech yn cytuno gyda'r datganiad 'mae'r llwybr cam-drin yn y cartref a'r hyfforddiant cysylltiedig wedi golygu bod cam-drin yn y cartref yn llai o broblem gudd i Fydwagedd / Ymwelwyr lechyd a'i bod erbyn hyn yn derbyn sylw fel mater o drefn".

Gallai'r rhai a holwyd roi unrhyw un o'r atebion canlynol:

<i>Cytuno'n gryf</i>	<i>Cytuno</i>	<i>Yn cytuno nac yn anghytuno</i>	<i>Anghytuno</i>	<i>Anghytuno'n gryf</i>
----------------------	---------------	-----------------------------------	------------------	-------------------------

Rhoddwyd sgôr rhwng un a phump i'r ymatebion: mae 'un' yn cyfateb i 'cytuno'n gryf' a phump yn cyfateb i 'anghytuno'n gryf'. Sgôr cyfartalog yr ymatebion oedd 2.4 (canolig 2), sy'n cynrychioli lefel gymedrol o gefnogaeth yn gyffredinol i'r Llwybr a'r hyfforddiant cysylltiedig.

Derbyniwyd sgôr cymedrol gan y rhai a holwyd o ran eu cefnogaeth yn gyffredinol i'r Llwybr a'r hyfforddiant cysylltiedig.

Gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr roi rhesymau dros eu hatebion i'r cwestiwn hwn. Dadansoddwyd yr atebion hynny am batrymau. Cyflwynir y darganfyddiadau yn nhabl pump isod.

Tabl pump: Y rhesymau a roddwyd dros lefelau hyder uwch (<3)

Rheswm	% o'r atebion <3
Oherwydd y bydd mwy o ymwybyddiaeth yn gyffredinol a bydd y broblem o gam-drin yn y cartref yn llai cuddiedig	17.5%
Oherwydd y bydd gan staff iechyd proffesiynol fwy o hyder i ofyn y cwestiwn am gam-drin yn y cartref	12%
Oherwydd bod cam-drin yn y cartref yn cael ei normaleiddio fel rhan o ymarfer ac y bydd yn haws ei godi o'r herwydd.	6%

Ar gyfer sgoriau >3, roedd y rhesymau fel a ganlyn:

- Gwyddai 9% o Ymwelwyr lechyd sut i ddelio gyda cham-drin yn y cartref eisoes.

Roedd y sylwadau a roddwyd yn llai aml ar gyfer sgoriau >3 yn cynnwys:

- Mae bwlch rhwng yr hyfforddiant a gweithredu'r Llwybr

- Mae cyfathrebu rhwng Ymwelwyr Iechyd a Bydwagedd yn wael ac nid yw gwybodaeth yn cael ei rhannu.

Beth yw'r elfennau pwysicaf i sicrhau bod y Llwybr yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol?

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i geisio ynysu pa elfennau o'r Llwybr oedd yn gyfrifol am ei lwyddiant. Roedd hefyd yn gwestiwn defnyddiol i sefydlu a ellid cyflwyno'r Llwybr mewn sefyllfaoedd gofal iechyd eraill. Rhoddir yr atebion mwyaf cyffredin yn Nhabl chwech isod:

Tabl chwech: y ffactorau pwysicaf ar gyfer sicrhau bod y Llwybr yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol

Diweddarau gweithwyr iechyd yn gyson a darparu hyfforddiant gloywi	14%
Sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd – drwy fonitro	13%
Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau	11%
Sicrhau bod hyfforddiant a chymorth yn cael ei roi i weithwyr iechyd gyda chyflwyno'r Llwybr	7%

Ni soniodd y rhai a holwyd am unrhyw ffactorau allweddol a fyddai wedi atal cyflwyno'r ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref mewn sefyllfaoedd iechyd eraill.

Canlyniadau disgwyliedig y Llwybr

Gofynnwyd i'r rhai a holwyd beth oeddent yn ei ddisgwyl fyddai canlyniadau'r Llwybr i rai a ddaeth trwyddi / sy'n dioddef, i Fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd ac i ferched yn gyffredinol. Mae Tablau saith ac wyth isod yn rhoi'r prif atebion.

Tabl saith: Y canlyniadau disgwyliedig i rai a ddaeth trwyddi / sy'n dioddef a merched yn gyffredinol

Mwy o gyfle i ferched datgelu cam-drin yn y cartref	9%
Merched sy'n dioddef cam-drin yn y cartref yn gallu cael gafael ar gymorth a chefnogaeth	3%
Mwy o ymwybyddiaeth o'r broblem ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol a pharodrwydd i fynd i'r afael â'r broblem	41%

Tabl wyth: Y canlyniadau disgwylledig i Fydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd

Mwy o hyder i ofyn y cwestiwn	18%
Mwy o bwysau ar amser staff ac adnoddau	5%
Fframwaith mwy trefnus ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem o gam-drin yn y cartref	13%

Y prif ganlyniadau disgwylledig ar gyfer y Llwybr yw mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin yn y cartref yn y boblogaeth yn gyffredinol a mwy o barodrwydd ymhlith rhai sy'n dioddef, a merched yn gyffredinol, i ddelio gyda'r broblem.

Gofynnwyd cwestiwn pellach i helpu i grynhoi barn y gweithwyr iechyd am effaith debygol y Llwybr yn y dyfodol. Holwyd barn yr ymatebwyr ynghylch pa mor debygol fyddai'r canlyniadau canlynol o gael eu cyflawni:

*Mwy o ferched sy'n dioddef yn cael eu hadnabod yn gyffredinol
Mwy o ferched sy'n dioddef yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth
Bydwagedd yn gallu delio gyda cham-drin yn y cartref yn fwy effeithiol
Ymwelwyr Iechyd yn gallu delio gyda cham-drin yn y cartref yn fwy effeithiol
Mwy o blant yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau cam-drin yn y cartref
Asiantaethau iechyd eraill yn fwy ymwybodol o gam-drin yn y cartref
Bydwagedd yn gallu cyfathrebu'n well gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol
Ymwelwyr Iechyd yn gallu cyfathrebu'n well gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol
Bydd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith merched yn gyffredinol nad yw cam-drin yn y cartref yn dderbyniol*

Rhoddwyd dewis o atebion i'r ymatebwyr fel a ganlyn:

<i>Tebygol iawn</i>	<i>Tebygol</i>	<i>Anodd dweud</i>	<i>Annhebygol</i>	<i>Annhebygol iawn</i>
---------------------	----------------	--------------------	-------------------	------------------------

Sgoriwyd yr atebion rhwng un a phump; un yn 'debygol iawn' a phump yn 'annhebygol iawn'. Dengys Tabl naw isod sgôr cyfartalog yr atebion i bob cwestiwn.

Tabl naw: Lefelau hyder y bydd pob canlyniad yn cael ei gyflawni.

Canlyniad	Sgôr hyder cyfartalog	Sgôr hyder canolog
Mwy o ferched sy'n dioddef yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth	2.2	2
Bydwagedd yn gallu delio â cham-drin yn y cartref yn fwy effeithiol	2.2	2
Ymwelwyr Iechyd yn gallu delio â cham-drin yn y cartref yn fwy effeithiol	2.3	2
Mwy o blant yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau cam-drin yn y cartref	2.3	2

Asiantaethau ieuchyd eraill yn fwy ymwybodol o gam-drin yn y cartref	2.1	2
Bydwagedd yn gallu cyfathrebu'n well gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol	2.4	2
Ymwelwyr ieuchyd yn gallu cyfathrebu'n well gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol	2.4	2
Bydd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith merched yn gyffredinol nad yw cam-drin yn y cartref yn dderbyniol	1.8	2

Y sgôr cyfartalog ar gyfer yr ymarfer hwn oedd 2.1, sef yr agosaf at 'tebygol' (canolig 2). Mae hyn yn awgrymu bod yr hyder y bydd nifer o ganlyniadau'n cael eu cyflawni yn rhesymol a bod gan yr ymatebwyr lefel resymol o optimistiaeth.

Mae Bydwagedd ac Ymwelwyr Ieuchyd ar y cyfan yn obeithiol y bydd canlyniadau dymunol y Llwybr yn cael eu cyflawni, yn enwedig y bydd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith merched yn gyffredinol nad yw cam-drin yn y cartref yn dderbyniol.

Y gallu i wneud ymholiad arferol

Y safon ar gyfer y Llwybr, o'i weithredu'n llawn, yw y bydd *pob* merch feichiog yn derbyn ymholiad arferol cychwynnol drwy lenwi'r ffurflen Ymholiad Arferol i Gam-drin yn y Cartref 1 (RE DA 1). Gofynnwyd i'r rhai a holwyd ar gyfer yr arolwg a oeddent wedi gallu gwneud hyn yn ymarferol. Er y disgwylir i gyfraddau'r ymholiad arferol wella wrth i'r Llwybr gael ei weithredu'n llawn, dyfeisiwyd y cwestiwn i edrych ar y rhwystrau beunyddiol i weithredu a oedd yn wynebu staff ieuchyd. Roedd yr atebion i'r cwestiwn 'a ydych wedi gallu gofyn i bob merch feichiog am gam-drin yn y cartref ers cyflwyno'r Llwybr?' fel a ganlyn:

Ffigwr un: atebion i'r cwestiwn 'a ydych wedi gallu gofyn i bob merch feichiog sy'n gleient am gam-drin yn y cartref ers cyflwyno'r Llwybr?'

naddo 81%
do 18%

Fodd bynnag, dylid cymell gofal gyda'r ymateb hwn oherwydd mae'r canlyniad yn cynnwys Ymwelwyr Ieuchyd, a'u rôl nhw yw peidio fel arfer â gofyn i bob merch, dim ond y rhai *na ofynnwyd* iddynt gan Fydwragedd.

Yna holwyd hwynt pam nad oeddent wedi gallu gofyn i bob merch feichiog.

Ateb y mwyafrif llethol (80% o'r atebion i'r cwestiwn, 'allwch chi ddisgrifio rhai o'r rhesymau pam na fu'n bosibl gofyn i bob merch feichiog am gam-drin yn y cartref' oedd: 'y partner neu aelod arall o'r teulu yn bresennol'.

Canlyniadau'r archwiliad chwe misol o ffurflenni ymholiad arferol

Ar y cyfan, mae gweithrediad y Llwybr wedi bod yn llwyddiannus drwy fod wedi cael ei weithredu ym mhob un ond tair Ymddiriedolaeth. Ar wahân i'r tair Ymddiriedolaeth sydd heb ei weithredu eto, mae hyfforddiant wedi'i gynnig i'r holl Fydwagedd ac Ymwelwyr lechyd yng Nghymru. Mae'n rhy fuan rhoi dadansoddiad llawn o'r effeithiau a'r canlyniadau i ferched a gyfeiriwyd drwy'r Llwybr oherwydd nad yw ei weithrediad yn aeddfed eto.

Y nod cyffredinol ar gyfer y Llwybr yw y bydd pob merch feichiog yn derbyn ymholiad arferol *ddwywaith* yn ystod eu beichiogrwydd neu ar ôl geni'r babi. Dengys Tabl wyth isod fod rhai Ymddiriedolaethau wedi llwyddo i ofyn y cwestiwn unwaith i 87% o ferched (drwy lenwi'r ffurflen RE DA 1). Mewn rhai achosion, mae'r cyfraddau RE DA 1 (gofyn unwaith) yn eithaf uchel, ond nid y rhai ar gyfer gofyn ddwywaith.

Fodd bynnag, y newid arfer y mae'r Llwybr eisiau ei weld yw bod 100% o ferched beichiog yn derbyn ymholiad arferol, fel rhan o'u pecyn gofal arferol. Mae yna dipyn o ffordd i fynd cyn cyflawni hynny. Dengys Tabl deg isod y cyfraddau holi sydd gan rai Ymddiriedolaethau yng Nghymru.

Tabl deg: cyfraddau ymholiad arferol

	% o gleientiaid newydd yn derbyn ymholiad RE DA1 unwaith	% o gleientiaid newydd yn derbyn RE DA1 ddwywaith	% o gleientiaid newydd yn derbyn ymholiad RE DA 2 Ddim ar gael	% o ymholiadau RE DA2 a asesir i fod yn risg ganolog	% o asesiadau RE DA 2 a asesir i fod yn risg uchel	% o ymholiadau RE DA2 a asesir i fod yn risg uchel iawn	% o ferched yn derbyn ymholiad RE DA2 a gyfeiriwyd at asiantaeth arall
Ymddiriedolaeth GIG Cymru							
Caerdydd a'r Fro	15%	1%	4%	5%	12%	12%	
Gwent	25%	2%	3%	2%	1%	0%	3%
Gogledd Morgannwg	75%	0%	10%	2%	0%	12%	10%
Caerfyrddin	87%	69%	5%	5%	0%	0%	5%

Cyfweliadau dilynol gyda phenaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd

I ba raddau y mae'r Llwybr wedi gwreiddio?

Mae lefelau gweithredu yn amrywio ar draws yr Ymddiriedolaethau. Mae'r Ymddiriedolaethau yn gyfrifol am ddatgan eu dyddiadau gweithredu eu hunain ac am reoli cyflwyniad yr hyfforddiant. Dywedodd rhai y cawsant drafferth cael gafael ar ddata pendant ynghylch defnyddio'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2 yn eu hardaloedd. Mewn rhai achosion, ni allai'r Penaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd fonitro'r defnydd a wnaed o'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2, neu roeddent yn ansicr ynghylch sut i wneud hynny. Byddai hyn yn rhwystro sylweddol i fonitro a ddefnyddir y Llwybr yn effeithiol ar draws Cymru.

Roedd yn rhaid i bob Ymddiriedolaeth reoli'r dasg o gydlynu'r hyfforddiant i'w staff eu hunain a sicrhau bod y Llwybr yn cael ei weithredu heb ormod o oedi. Roedd rhai Ymddiriedolaethau yn awyddus i aros hyd nes y bo'r holl staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant cyn 'lansio' proses y Llwybr, gan olygu bod cyfnod hir rhwng y rownd hyfforddi gyntaf a gweithrediad y Llwybr. Roedd un Ymddiriedolaeth wedi sicrhau bod ei staff i gyd yn ymwybodol o broses y Llwybr hyd yn oed os nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant ffurfiol eto.

Gellir mesur ei weithrediad naill ai'n ffurfiol, er enghraifft faint o ferched a holwyd ynghylch cam-drin yn y cartref drwy lenwi'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2, neu'n llai ffurfiol drwy ofyn, er enghraifft, faint o Fydwagedd ac Ymwelwyr lechyd sy'n teimlo bod y Llwybr yn rhan o'u hymarfer beunyddiol.

Mewn rhai ardaloedd Ymddiriedolaeth, roedd y rhai a holwyd yn teimlo bod gweithrediad y Llwybr wedi bod yn ffurfiol ond bod yr ymarfer dal ddim yn dilyn y polisi:

'Gwnaed archwiliad gan y Fydwraig oruchwylol, a chafwyd naill ai nad oedd y cwestiwn yn cael ei ofyn i ferched neu nad oedd y Bydwagedd yn ei gofnodi yn y lle iawn.'

Ar y cyfan, roedd gan Ymwelwyr lechyd lai o brofiad o ddefnyddio'r Llwybr. Fodd bynnag, mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd dyluniad proses y Llwybr.

Mewn un achos, roedd egwyl eithaf hir rhwng yr hyfforddiant a gweithrediad y Llwybr i Ymwelwyr lechyd:

'Cawsom yr hyfforddiant cwpl o flynyddoedd yn ôl ac nid yw pethau i'w gweld i fod yn digwydd oherwydd nid oes unrhyw beth yn dod drwodd atom ni eto gan y Bydwagedd na dim.'

Roedd Ymwelwyr lechyd yn ymddangos i fod yn llai clir ynghylch eu cyfrifoldeb i ddefnyddio'r Llwybr gan eu bod yn credu mai proses i Fydwagedd yn bennaf ydoedd, er gwaetha'r ffaith bod Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd wedi cael eu hyfforddi ar y cyd mewn nifer o ardaloedd Ymddiriedolaeth. Teimlwyd bod y dryswch hwn yn rhannol oherwydd yr amser a aeth heibio rhwng hyfforddi a gweithredu, a oedd yn arbennig o hir i Ymwelwyr lechyd.

Mewn rhai achosion, nid oedd gwybodaeth ynghylch a oedd ymholiad arferol wedi'i wneud gyda merched beichiog yn cael ei phasio ymlaen i'r Ymwelwyr lechyd. Nid oedd yr ymatebwyr yn siŵr pam:

'Nid wyf gant y cant yn sicr pam. Mae naill ai'n ymwneud â chaniatâd neu gyfrinachedd neu rywbeth felly, maen nhw wedi cael tipyn o oedi oherwydd hynny.'

Teimlai ardaloedd eraill fod y Llwybr wedi dod yn rhan annatod o ymarfer:

‘Wel, mae wedi gwreiddio’n dda iawn. Mae’r Llwybr Cynenedigol yn cael ei ddefnyddio’n dda iawn gan y Bydwragedd cymunedol i gyd, ac mae’n tynnu sylw...mae wedi tynnu sylw at nifer o bryderon a godwyd gan ferched. Felly mae wedi gwreiddio’n dda iawn’.

Y Llwybr fel problem ‘newid’

Teimlwyd bod materion diwylliannol mewn sefydliadau hefyd yn rhwystro. Roedd rhai a holwyd yn meddwl bod y Llwybr yn golygu newid diwylliant mewn arferion Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd, ac y byddai’n cymryd mwy o amser i’w dderbyn na materion technegol neu logistaidd:

‘Yn amlwg, mae’n fater o newid diwylliant, a hynny sydd angen inni ddelio â fo a dweud y gwir, ond mae’r hyfforddiant wedi gwneud llawer i hwyluso hynny o ran sut i ofyn y cwestiynau’.

‘Felly, rwyf yn meddwl bod y Bydwragedd eu hunain yn teimlo...y byddai’n effeithio’n andwyol ar eu perthynas gyda’r merched pe baent yn datgelu. Oherwydd wrth gwrs, byddai’n rhaid iddynt yna ddweud, gan ddibynnu ar beth oedd yn cael ei ddatgelu, y byddai’n rhaid rhoi gwybod i’r Gwasanaethau Cymdeithasol, a roeddent yn teimlo y gallai hynny effeithio ar y berthynas yr oeddent yn ceisio ei chreu gyda’r merched’.

Teimlwyd y dylid mesur y newid mewn hyder ac agweddau proffesiynol fel rhan o fonitro llwyddiant y Llwybr.

Dywedodd uwch Fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd y byddai’r Llwybr, yn y tymor hirach, yn dod yn rhan o ‘ymarfer beunyddiol’ ac efallai hyd yn oed, gobeithio, yn cyrraedd pwynt lle nad oedd angen y gwaith papur oherwydd bod cam-drin yn y cartref yn cael ei ddeall yn dda ac yn cael ei gofnodi fel mater o drefn:

‘Hynny yw, byddwn yn hoffi gweld yn y dyfodol na fyddai’n rhaid inni ddefnyddio’r gwaith papur, ei fod yn cael ei wreiddio mewn arferion ac yn dod yn rhan o’r cwestiynau a ofynnir ar gyfer gofal cynenedigol’.

Mae’r ffaith y dylai’r Llwybr ddod yn rhan derbyniol o arferion beunyddiol, ac na fyddai angen ffurflenni penodol, yn cael ei chefnogi gan Taket a’i gyd-ymchwilwyr (2003) sy’n awgrymu na ddylai ymholiad arferol olygu llenwi ffurflenni’n systematig ond rhywbeth sy’n cael ei dderbyn i reoli risg fel rhan o ofal iechyd arferol. Fodd bynnag, derbyniodd yr ymatebwyr y byddai’r ffurflenni’n helpu i hwyluso’r newid ymarfer hwn.

Rhwystro i weithredu

Roedd nifer o’r rhwystrau i weithredu a ddisgrifiwyd gan uwch Fydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd o ganlyniad i ansicrwydd neu bryder ynghylch effaith y Llwybr ar y dechrau. Ond yn ymarferol, teimlai rhai o’r ymatebwyr fod y rhwystrau hyn wedi eu goresgyn wrth i weithrediad y Llwybr aeddfedu.

Wrth i'r Llwybr wreiddio'n well, roedd agweddau at y Llwybr yn newid, er enghraifft:

'Rwyf yn meddwl bod pobl yn poeni y byddai'n achosi problem fawr, ond nid yw hynny wedi digwydd'.

Siaradodd yr ymatebwyr am rai o'r pryderon a oedd gan Fydwagedd ac Ymwelwyr lechyd, a oedd wedi rhwystro gweithrediad y Llwybr ar y dechrau. Teimlai Uwch Fydwagedd ac Ymwelwyr lechyd fod staff yn poeni na fyddent yn gallu delio gyda'r broblem cam-drin yn y cartref oherwydd nad oeddent wedi cymhwyso neu hyfforddi'n iawn neu heb y sgiliau iawn:

'Rwyf yn meddwl y daeth yn broblem i'r Bydwagedd a deimlai na fyddent byth yn ddigon cymwys i ddelio ag effeithiau cam-drin yn y cartref neu hyd yn oed i ofyn y cwestiwn'.

'Maen nhw'n ansicr iawn beth i ofyn iddynt a dweud y gwir ac yna pa gynghor i'w roi iddynt ac at bwy i'w cyfeirio'.

Roedd rhwystrau eraill a gofnodwyd yn gysylltiedig ag adnoddau a phwysau ar amser staff:

'Eto, mater o amser a rhyddhau staff i wneud yr hyfforddiant, oherwydd mae'n gwrs diwrnod cyfan'.

'Ni allwch ddweud y byddwch yn gofyn iddi heddiw oherwydd bod gennych ychydig o amser heddiw, efallai na fyddwch yn gallu oherwydd nad ydy hi ar ei phen ei hun. A phan fydd hi ar ei phen ei hun, mae gennych chwech o ferched eraill ar y rhestr a chlinig prysur ofnadwy a thua deg munud yr un'.

Penderfynodd yr Ymddiriedolaethau drostynt eu hunain pa ddull gweithredu y byddent yn ei ddefnyddio. Roedd yn rhaid i rai geisio datrys problemau proses a seilwaith o fewn yn eu sefydliad cyn gallu gweithredu'r Llwybr.

Er enghraifft, soniodd dwy Ymddiriedolaeth fod angen iddynt sicrhau bod polisi staff mewnol ar gam-drin yn y cartref yn ei le cyn dechrau gweithredu.

Roedd Ymddiriedolaethau eraill yn wynebu problemau oherwydd eu maint:

'...felly, chi'n gwybod, mae o'n wasanaeth mawr. Felly ie, yn amlwg nid oeddem yn gallu eu hyfforddi i gyd mewn un wythnos a'i weithredu yr wythnos ganlynol'.

Roedd un o'r Ymddiriedolaethau mwy yn sicrhau bod y Bydwagedd yn ymwybodol o broses y Llwybr hyd yn oed os nad oeddent wedi derbyn eu hyfforddiant, ac yn derbyn gwybodaeth gyfeiriol y Llwybr i'w defnyddio. Pwrpas hyn oedd sicrhau y gellid gweithredu'r Llwybr heb ormod o oedi.

Roedd mwy o fwlch amser rhwng hyfforddi a gweithredu gan yr Ymddiriedolaethau mwy i bob golwg. Teimlwyd fod hyn yn rhwysr i weithrediad llwyddiannus y Llwybr.

Disgrifiwyd effaith y 'bwllch amser' hwn rhwng hyfforddi a gweithredu:

'Rwyf yn meddwl eich bod yn colli ychydig o gymhelliad, ac yn fy marn i mae hynny'n broblem. Mae'n well cynnal yr hyfforddiant un wythnos ac yna ei weithredu yr wythnos ganlynol.'

Soniodd un ymatebwr am y drafferth o sicrhau bod ffurflenni RE DA1 a RE DA2 yn cael eu defnyddio. Roedd rhai gweithwyr ieuchyd yn methu â defnyddio'r ffurflenni ac nid oedd y rheswm pam yn glir. Roedd Uwch Fydwagedd ac Ymwelwyr ieuchyd yn aml yn dibynnu ar archwiliad gorfodol chwe misol o'r gwaith papur i roi gwybodaeth iddynt am berfformiad gyda defnyddio'r ffurflenni, ond nid yw hyn yn digwydd yn ddigon rheolaidd i fod yn fonitro parhaus a rhagweithiol.

Elfennau a newidiodd arferion mewn gwirionedd

Gofynnwyd i'r Penaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr ieuchyd bwyso a mesur pa elfennau o'r hyfforddiant neu o broses y Llwybr a oedd wedi newid arferion mewn gwirionedd. Dyma oedd eu hatebion:

'Codi ymwybyddiaeth pobl drwy'r hyfforddiant fel y gallent efallai adnabod merched a oedd yn amlwg wedi cael eu cam-drin yn systematig ers blynnyddoedd, fel y gallent adnabod yr arwyddion a'r tueddiadau o ran sut oedd y merched hyn yn ymddangos iddynt.'

'O leiaf mae Llwybr ar gael inni ac mae gennym system gyfeirio nad oedd gennym o'r blaen. O'r blaen roedd yn rhaid i bob Bydwraig ymbalfalu yn y tywyllwch, ond o leiaf nawr mae ganddynt dull ffurfiol o wneud pethau, sy'n help.'

'Byddwn i'n dweud mai'r ffaith bod y cwestiwn yn cael ei ofyn wrth bawb a'i fod yn cael ei gofnodi.'

Roedd prif effeithiau'r Llwybr o ran newid arferion proffesiynol wedi digwydd o ganlyniad i'r hyfforddiant, a oedd wedi helpu i newid agweddau'r staff a'u hymwybyddiaeth o gam-drin yn y cartref. Hefyd, teimlwyd fod natur reolaidd y Llwybr yn ffactor bwysig a fyddai'n newid agweddau o fewn y gwasanaethau ieuchyd.

Beth yn rhagor y gellir ei wneud i wella lefelau datgelu?

Gofynnwyd i'r Penaethiaid Bydwagedd ac Ymwelwyr ieuchyd pa elfennau ac arferion eraill y gellid eu cyflwyno i wella lefelau datgelu ac i sicrhau bod merched yn cael eu cyfeirio at y cymorth iawn.

Roedd mwy o glinigau merched yn unig, neu glinigau merched-ganolog, yn cael ei weld fel un peth a fyddai'n gwella lefelau datgelu cam-drin yn y cartref.

Roedd sylwadau'r Uwch Fydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd fel a ganlyn:

'Rwyf yn meddwl pe bai mwy o'r llefydd hynny sydd y tu allan i wasanaeth y Meddyg Teulu ar gael, fel bod pobl yn ei weld fel gwasanaeth i ferched, gwasanaeth Bydwreigiaeth ar gyfer merched.'

'Rwyf yn siŵr pe bai merched gael gafael yn well ar wasanaethau, y byddai mwy o gyfle i'r merched ddatgelu cam-drin.'

Teimlai eraill pe bai'r broses yn cael ei gwreiddio ymhellach y gellid cael mwy o ferched i ddatgelu cam-drin:

'Pe gallem gyrraedd y pwynt lle mae pob Bydwraig yn hyderus, a gwyddom eu bod yn hyderus i ofyn ar y cyfle cyntaf pan fydd y ferch ar ei phen ei hun, rwyf yn meddwl mai hwnnw fyddai'r safon aur ddelfrydol.'

Cyfweliadau gyda merched a ddaeth trwyddi

Cafodd dwy ferch a ddaeth drwy sefyllfa cam-drin yn y cartref eu cyfweld i gofnodi rhai o brofiadau merched sy'n cael eu dethol i dderbyn cymorth drwy'r gwasanaethau iechyd.

Dangosodd yr enghreifftiau o ferched a ddaeth trwyddi ac a gyfeiriwyd i dderbyn cymorth gan weithwyr iechyd ba mor bwysig yw'r berthynas a grëir rhwng y gweithiwr iechyd a'r ferch, i ennill hyder ac ymddiriedaeth y ferch.

Yn hanesion y ddwy ferch, roedd gan y gweithwyr iechyd wybodaeth dda am gam-drin yn y cartref ac yn gwybod sut i'w adnabod fel problem. Roedd gweithwyr iechyd hefyd yn gwybod sut ac at bwy i gyfeirio merched. Mae'r hanesion hefyd yn dangos sut y dewisodd y merched siarad am eu profiadau am resymau gwahanol iawn, ond un ffactor cyffredin oedd personoliaeth a ffordd y gweithiwr iechyd o ddelio â'r sefyllfa. Yn y ddau achos, ni siaradodd y merched am eu camdriniaeth o ganlyniad i gwestiynu *arferol* ond drwy broses o adeiladu ymddiriedaeth a chefnogaeth gyda'u gweithiwr iechyd. Diddorol hefyd yw'r broblem ddiogelwch mewn ysbyty y soniwyd amdano yn yr ail stori, sy'n ymddangos i fod wedi atal y ferch rhag siarad am ei chamdriniaeth a gofyn am gymorth.

Mae'r ddwy stori hefyd yn dangos y pryderon posibl sydd gan ferched am rôl y Gwasanaethau Cymdeithasol a phwysigrwydd tawelu meddyliau merched ynghylch beth allai hyn ei olygu. Yn stori dau, llwyddwyd efallai i atal y pryderon hyn wrth i'r Ymwelydd Iechyd geisio tawelu meddwl y ferch yn barhaus ynghylch y camau yr oedd yn eu cymryd a thrwy ei diweddarau'n gyson am bob cam o'r broses.

Stori un

Y broblem yr oeddwn yn ei phrofi oedd cam-drin meddylol ac roedd yn anodd iawn dod i delerau â hyn. Gwelodd yr Ymwelydd lechyd bod angen help arnaf i fynd allan a byw bywyd normal eto. Roedd fy hyder wedi ei effeithio'n ddrwg.

Roedd yr Ymwelydd lechyd yn dda iawn, ac yn fy ffonio i wneud yn siŵr fy mod yn ocê. Helpodd fi i ddod i gysylltiad â'r asiantaeth gymorth. Rwyf ar raglen gyda'r asiantaeth gymorth yn awr i geisio gwella fy hyder.

Mae'n anodd pan fydd rhywun yn gofyn am gam-drin yn y cartref. Mae merch yn agored iawn i niwed ar y pryd oherwydd ei bod yn emosiynol ofidus ac yn unig. Weithiau, mae merched yn gallu siarad gormod os ydynt yn desprét ac efallai bod problemau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf yn credu bod angen i weithwyr ieuchyd fod yn ymwybodol iawn o hyn, bod merched yn dweud pethau nad ydynt eisiau eu dweud oherwydd eu bod yn unig a desprét.

Stori dau

Rwyf yn meddwl mai yn ystod yr ail ymweliad â fy nghartref y cododd y mater gyda'r Ymwelydd lechyd. Dwn i ddim pam ond roedd yn teimlo'n iawn siarad gyda hi. Dywedais wrthi am rai pethau oedd wedi bod yn broblem a dyma hi'n dechrau gofyn cwestiynau amdano a dweud 'mae hynny'n swnio fel cam-drin yn y cartref'. Imi, dim ond 'profiad drwg' oedd o, felly 'doeddwn i ddim wedi meddwl amdano felly o'r blaen. Roedd yn gallu rhoi enw iddo.

Roedd yr Ymwelydd lechyd wedi gwneud ymchwil i gam-drin yn y cartref ar gyfer ei thraethawd gradd a gwyddai lawer amdano. Nid cam-drin corfforol ydoedd ond cam-drin meddylol ac, o'r herwydd, ni allai unrhyw un ei stopio ond roedd yr Ymwelydd lechyd fel be bai'n deall. Gwnaeth imi deimlo nad oeddwn ar fy mhen fy hun gymaint. Roeddwn yn teimlo'n llawer gwell ar ôl siarad gyda hi am y peth.

Cefais fanylion am asiantaeth a allai fy helpu gan yr Ymwelydd lechyd. Rhoddodd rif ac enw imi a phenderfynais ffonio.

Y ffaith bod yr Ymwelydd lechyd mor dosturiol ac yn deall fy sefyllfa a wnaeth imi deimlo'n well fel y gallwn siarad gyda hi. Cododd y sgwrs yn fy nghartref. Nid oedd angen gormod o gwestiynau oherwydd unwaith y dechreuais siarad, ni allwn stopio. Helpodd fi i siarad gyda rhywun nad oedd un perthyn imi, gwyddai pobl eraill yn fy nheulu am y problemau ond roedd yn help ei bod yn rhywun o'r tu allan.

O'r blaen, pan oeddwn yn yr ysbyty, soniais am rai pethau wrth y Bydwagedd a allai fod wedi swnio fel pe bai yna broblem, ond ni wnaethant ddeall bod yna broblem. Mae'n debyg nad oedd unrhyw arwyddion amlwg, ond gofynnais am gael aros yn yr ysbyty am fwy o amser oherwydd fy mhroblemau adref. Cefais wneud ond ni chefais fy holi rhagor am y peth. Os nad ydych wedi bod yn y sefyllfa eich hun neu wedi gwneud rhywfaint o ymchwil, ni fydddech o

reidrwydd yn gwybod pa arwyddion i sylwi arnynt. Y cwbl a ddywedais oedd 'mae o'n anodd'.

Nid oedd unrhyw ddiogelwch yn yr ysbyty felly roeddwn yn poeni y gallai ddod yno ar unrhyw adeg.

Yr argraff a gefais i pan gyrhaeddais yr ysbyty oedd mai fi sy'n penderfynu pwy sy'n cael ymweld, ond, mewn gwirionedd, nid oes unrhyw yn gofyn 'mae hwn a hwn yma, ydych chi eisiau ei weld o?' Maen nhw mor brysur na fedrant reoli'r ymwelwyr. Yn fy nghartref fy hun roeddwn yn fwy cyffyrddus yn siarad am y peth, ond efallai mai'r rheswm am hynny oedd nad oedd y tad o gwmpas. Efallai y byddai wedi bod yn wahanol pe gwyddwn y gallai droi i fyny.

Daeth yr Ymwelydd lechyd i'm gweld pedair neu bump gwaith ar ôl imi siarad gyda hi a dim ond pan gafodd y mater ei ddatrys fwy neu lai y peidiodd â dod.

Yr hyn oedd yn wirioneddol bwysig oedd ei bod yn egluro beth oedd yn digwydd gam wrth gam. Tawelodd fy meddwl fod y Gwasanaethau Cymdeithasol ond eisiau fy niogelu i a'r plentyn ac mai nid fy ngallu i fel rhiant oedd dan sylw. Roedd hyn yn help mawr. Roedd mor bwysig bod popeth yn glir. A roedd hefyd yn bwysig ei bod wedi rhoi'r argraff imi mai dim ond gwrando arnaf oedd hi eisiau ei wneud, ac nid fy marnu.

Roeddwn yn hapus iawn gyda'r Ymwelydd lechyd. Gydag unrhyw ymarferwr iechyd, mae'n hynod bwysig eu bod yn egluro beth y maen nhw'n ei wneud. Mae hyn yn creu ymddiriedaeth a roedd hynny'n hollbwysig.

Ymweliadau'r astudiaethau achos

Prif ddarganfyddiadau ymweliadau'r astudiaethau achos oedd:

Ymweliad astudiaeth achos un: Ardal Wledig

Rhagarweiniad:

Daeth y cyfle i fynychu cyfarfod o gydlynwyr Ymwelwyr lechyd mewn lleoliad canolog yn ardal yr Ymddiriedolaeth. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i gyfarfod â grŵp o Ymwelwyr lechyd wyneb yn wyneb ar yr un pryd, rhywbeth a fyddai wedi bod yn anodd ei wneud fel arall gan fod Ymwelwyr lechyd wedi eu lleoli mewn gwahanol gymunedau ar draws ardal ddaearyddol eang.

Cynhaliwyd un grŵp ffocws gyda chwech o Ymwelwyr lechyd fel rhan o'r cyfarfod cydlynwyr a gwnaed ymweliad safle pellach i ganolfan iechyd yn ystod sesiwn galw heibio i famau a babanod i gyfweld dau Ymwelydd lechyd arall. Achubwyd ar y cyfle hefyd yn y sesiwn galw heibio i ofyn i ferched claf am eu hagwedd tuag at ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref.

Roedd un Ymwelydd lechyd a gyfwelwyd wedi derbyn yr holl hyfforddiant ar gyfer Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan ond nid oedd wedi cael unrhyw brofiad eu hunain o ddefnyddio'r ffurflenni Ymholiad Arferol i Gam-drin yn y Cartref (RE DA 1 a RE DA 2), fel y byddid yn ei ddisgwyl mewn ardal a oedd ond newydd ddechrau gweithredu'r Llwybr.

Roedd gweinyddwraig ganolog yn gyfrifol am goladu a storio'r ffurflenni RE DA 1 a RE DA2. Roedd yr un weinyddwraig yn gweithio fel Cynorthwy-ydd Personol i'r ddau Bennaeth Bydwragedd ac Ymwelwyr lechyd. Felly, roedd mewn sefyllfa ddelfrydol i gydlynu'r wybodaeth gan y ddau grŵp o weithwyr.

Sylwyd fod y weinyddwraig / Cynorthwy-ydd Personol yn ymddangos i fod yn effeithlon iawn. Roedd yn sicrhau os nad oedd y ffurflenni wedi eu llenwi'n gywir neu wedi eu llofnodi gan y gweithiwr lechyd priodol, y byddai'n mynd ar ôl y mater fel bo'r cofnodion yn gywir. Roedd hyn yn ymddangos i fod yn gryfder pwysig o ran sut yr oedd y Llwybr yn cael ei weithredu yn yr ardal.
Natur Ymweliadau lechyd mewn ardal wledig:

Roedd dosbarthiad daearyddol yr Ymwelwyr lechyd ynddo'i hun yn fater perthnasol i gyflwyniad y Llwybr oherwydd, i bob golwg, ychydig iawn o gyfle oedd gan Ymwelwyr lechyd i gyfarfod i rannu profiadau a syniadau proffesiynol.

Roedd yr Ymwelwyr lechyd a gyfwelwyd yn y cyfarfod cydlynwyr yn gallu rhannu gwybodaeth yn y cyfarfodydd hynny; ond nid oeddent yn cael eu cynnal yn aml ac nid oedd y presenoldeb bob tro'n uchel.

Gofynnwyd i'r Ymwelwyr lechyd yn y cyfarfod cydlynwyr sut yr oeddent yn gallu dysgu o'i gilydd o ystyried eu bod yn gweithio mewn ardal wledig eang a sut yr oeddent yn rhannu a chefnogi arferion proffesiynol ei gilydd. Atebodd yr Ymwelwyr lechyd eu bod yn gweithio mewn gwahanol dimau cymunedol. Mewn rhai ardaloedd, byddai gan yr Ymwelydd lechyd brofiad helaeth iawn ond, mewn eraill, byddai'r staff yn llai profiadol. I raddau helaeth, mae'n dibynnu ar sut y mae'r gwahanol dimau lleol wedi eu rhoi at ei gilydd o ran faint o gymorth a phrofiad proffesiynol sydd ar gael ynddynt. Fodd bynnag, i bob golwg, roedd gan yr Ymwelwyr lechyd ddulliau o gael gafael ar gymorth gan eu cydweithwyr ac roedd goruchwyliaeth glinigol hefyd ar gael yn gyson. Dywedodd yr Ymwelwyr lechyd a holwyd yn y sesiwn galw heibio eu bod yn cael cynnig goruchwyliaeth glinigol unwaith y mis a bod cyfarfodydd tîm pellach yn cael eu cynnal unwaith y mis, fel bod cyfle i gyfarfod ag Ymwelwyr lechyd eraill o leiaf unwaith pob pythefnos. Hefyd, roedd Ymwelwyr lechyd mwy profiadol yn gallu cynnig cyngor a chymorth *ad hoc* dros y ffôn i Ymwelwyr lechyd llai profiadol wrth i broblemau godi.

Yn y grŵp ffocws gyda'r Ymwelwyr lechyd, trafodwyd y mater o oruchwyliaeth ar gyfer cam-drin yn y cartref. Dywedodd yr Ymwelwyr lechyd nad oedd unrhyw drefn ffurfiol ar gyfer cefnogi a monitro defnyddio'r Llwybr. Teimlai'r Ymwelwyr lechyd y gellid, mewn theori, monitro neu oruchwyllo'r Llwybr drwy'r trefniadau amddiffyn plant neu deuluoedd agored i niwed. Fodd bynnag, cwestiynwyd a fyddai hyn yn ddigon:

‘Mae’n ddiddorol onid yw? Mae mynediad at oruchwyliaeth ar gyfer problemau ad hoc yn dipyn o broblem’.

Awgrymwyd y byddai angen mwy o gymorth anffurfiol gan gydweithwyr i ddelio â cham-drin yn y cartref,

‘Mae dal angen mwy o ddibriffio ‘anffurfiol’ arnom. Rwyf wedi cael galwadau ffôn gan Ymwelwyr lechyd llai profiadol sydd wedi bod mewn sefyllfaoedd anodd a roeddent yn teimlo bod arnynt eisiau siarad.’

Cadarnhawyd hyn gan yr Ymwelwyr lechyd a holwyd yn y sesiwn galw heibio i famau a babanod a deimlai fod cael modd i siarad ag un aelod o’r tîm yn enwedig, a oedd yn brofiadol iawn, yn bwysig. Ychwanegodd aelod o’r grŵp ffocws nad oedd trefniant o’r fath ar gael mewn cymunedau eraill pob tro.

Problem arall gyda gweithio mewn ardal wledig oedd y teimlad bod dysgu proffesiynol yn arafach oherwydd ‘nid yw problemau’n codi mor aml’ (fel cam-drin yn y cartref) ag y maen nhw mewn ardaloedd trefol. Yn fwy cadarnhaol, soniwyd fod trosiant staff yn arafach mewn ardaloedd gwledig felly roedd mwy o barhad rhwng staff ac, felly, roedd yn haws i Ymwelwyr lechyd greu perthynas â’i gilydd i ddysgu a rhannu profiadau. Teimlwyd hefyd fod hyn yn bwysig i adeiladu perthynas gyda theuluoedd dros gyfnod o amser.

Mewn ardaloedd gwledig, efallai ei bod yn bwysicach sicrhau bod y Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr ieuchyd, oherwydd bod dosbarthiad daearyddol y gweithwyr ieuchyd efallai’n gwneud dysgu a datblygu staff yn anoddach.

Beth mae’r Ymwelwyr lechyd yn ei feddwl o’r Llwybr:

Roedd consensws cryf ymhlith yr Ymwelwyr lechyd a holwyd bod y Llwybr yn syniad da. Yn enwedig, teimlai’r Ymwelwyr lechyd y byddai pobl yn fwy agored am gam-drin yn y cartref o ganlyniad.

‘Hyd yn oed os nad ydynt yn datgelu ar y dechrau, medrant efallai ddweud rhywbeth wedyn.’

‘Mae’n beth da. Mae ofn dweud ar lawer o ferched ac mae’r tadau’n bresennol yn aml. Mae’r hyfforddiant wedi bod o gymorth iawn gyda hynny.’

Teimlwyd hefyd y byddai cael proses gyson, wedi’i rhannu rhwng Ymwelwyr lechyd a Bydwagedd, yn gwella cyfathrebu am gam-drin yn y cartref. Roedd yr Ymwelwyr lechyd yn glir pe na allai’r Bydwagedd ofyn am gam-drin yn y cartref a chyflawni’r ymholiad arferol cychwynnol, mai eu cyfrifoldeb nhw fyddai sicrhau bod y cwestiwn yn cael ei ofyn. Roeddent yn teimlo wedyn y byddai cam-drin yn y cartref o hyd yn cael ei ganfod.

Problemau hanesyddol wrth weithio gyda merched yn dioddef o gam-drin yn y cartref

Gan adlewyrchu sylwadau a wnaed gyda rhannau eraill o'r ymchwil, roedd Ymwelwyr lechyd wedi cael trafferth dod o hyd i amser preifat gyda merched i'w holi am gam-drin yn y cartref. Teimlai'r Ymwelwyr lechyd fod yr hyfforddiant wedi helpu gyda hyn. Roedd problemau eraill yr oedd Ymwelwyr lechyd wedi dod ar eu traws yn hanesyddol yn cynnwys y stigma a deimlai'r merched a'u hamharodrwydd i siarad am eu camdriniaeth:

'Roedd problem ynghylch eu cael i fod yn agored a gonest a theimlad o gywilydd efallai o'r hyn a oedd yn digwydd a bod arnynt ofn lleisio barn'.

'Mae ofn dweud wrth unrhyw un ar lawer o ferched. Mae'n cymryd llawer mwy nag un digwyddiad cyn y byddant yn dweud rhywbeth.'

'...a hyd yn oed wedyn efallai na fyddent eisiau gwneud unrhyw beth yn ei gylch oherwydd ei fod yn broses y maen nhw'n mynd trwyddi'.

Teimlwyd fod yr hyfforddiant yn helpu Ymwelwyr lechyd gyda'r materion hyn drwy dawelu eu meddyliau bod merched eisiau i rywun eu holi. Teimlwyd fod yr hyfforddiant yn gosod ffiniau o ran beth ddylai Ymwelwyr lechyd fod yn ei ddarparu i ferched, o ran cymorth a chynghor.

Y prif ffactorau:

<i>Mae rôl personoliaeth a phrofiad gweithwyr ieuchyd unigol yn bwysig ar gyfer defnyddio'r Llwybr.</i>

Proses bwysig oedd rôl Ymwelwyr lechyd unigol a chryfder eu personoliaeth a'u profiad. Fel yr eglurodd un Ymwelydd lechyd:

'Mae hi [Ymwelydd lechyd] yn gwneud llawer iawn o oruchwyliaeth glinigol. Mae gwaith Ymwelydd lechyd yn wahanol pob dydd. Mae goruchwyliaeth glinigol yn beth mor dda oherwydd gallwch bwysio a mesur pethau. Mae llawer ohonom yn gweithio ar ein pen ein hunain, ac mae eraill mewn timau. Mae gallu rhannu rhwng cydweithwyr yn bwysig'.

Roedd yr Ymwelwyr lechyd a holwyd yn y sesiwn galw heibio hefyd yn rhannu adeilad gyda Bydwagedd cymunedol, fel bod cyswllt wyneb-yn-wyneb yn bosibl. Teimlwyd fod hyn yn hwyluso cyfathrebu felly os oedd unrhyw broblemau gyda theuluoedd, fel cam-drin yn y cartref, byddai hyn yn cael ei basio ymlaen i'r Ymwelydd lechyd neu fel arall.

Teimlwyd fod y cysylltiad rhwng Ymwelwyr lechyd a'r gymuned leol hefyd yn hanfodol. Mewn sefyllfa wledig, teimlwyd fod gan Ymwelwyr lechyd fwy o gysylltiad â'u cymunedau, o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Roedd hyn yn golygu eu bod yn gallu datblygu perthynas gyda'r teuluoedd yr oeddent yn gweithio gyda nhw.

'Mae hi [yr Ymwelydd lechyd] yn adnabyddus ac yn uchel iawn ei pharch yn y gymuned. Mae merched yn gwybod y medrant fynd ati.'

Yn ystod y cyfweiliadau yn y sesiwn galw heibio, trafodwyd y mater o gyfathrebu ag asiantaethau eraill y tu allan i'r gwasanaeth iechyd. Dywedodd y rhai a holwyd fod y berthynas gyda'r Heddlu'n dda iawn yn eu hardal nhw. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth yn cael ei phasio ymlaen i'r Ymwelwyr lechyd gan yr Heddlu pan fyddai digwyddiadau'n cynnwys plant. Yn y gorffennol nid oedd hyn wedi digwydd pob tro ac roedd hi'n wythnosau lawer weithiau cyn i wybodaeth gael ei derbyn gan yr Ymwelydd lechyd.

Roedd penodi Swyddog Cyswllt Heddlu gan yr heddlu lleol wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi gwella llif y wybodaeth am gam-drin yn y cartref gan yr Heddlu.

Rhwystrau:

Dod o hyd i amser preifat gyda merched i wneud yr ymholiad:

Teimlwyd mai gallu dod o hyd i amser preifat gyda merched i drafod cam-drin yn y cartref oedd y rhwystr mwyaf, yn enwedig os teimlwyd fod cam-drin yn y cartref yn problem mewn teulu.

'...ond yn yr achosion mwyaf difrifol [o gam-drin yn y cartref, roedd rhywun o hyd yn dod gyda'r mamau. Nid oes llawer y gallwch ei wneud yn y sefyllfaoedd hynny']

Roedd yr hyfforddiant wedi helpu i raddau ond parhau oedd y problem.

<i>Teimlai'r rhai a holwyd fod yr Ymwelwyr lechyd mwyaf profiadol yn gallu delio â'r problem o ddod o hyd i amser cyfrinachol gyda merched yn fwy effeithiol drwy ddyfeisio cyfleoedd i siarad gyda nhw ar eu pen eu hunain.</i>
--

Roedd hyn oherwydd yr hyder a'r sgiliau a enillwyd dros amser gan Ymwelwyr lechyd profiadol. Teimlwyd fod angen datblygu a hyfforddi staff yn barhaus i sicrhau hyn.

'Oherwydd eich gwaith mae'n bosibl gweithio o gwmpas y broblem un ffordd neu'i gilydd, mewn clinig imwneiddio neu eu dal ar adegau eraill. Rhaid ichi fod yn dipyn o dditectif a dyfeisio cyfle weithiau'

Ymweliadau â'r Cartref:

Teimlwyd fod ymweliadau cartref yn anodd mewn sefyllfa lle'r oedd amheuaeth o risg o gam-drin yn y cartref, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle'r oedd yr Ymwelwyr lechyd efallai'n fwy ynysig ac, felly, mewn perygl eu hunain o bosibl. Teimlwyd hefyd fod y sefyllfa wledig yn fwy ynysig i rai merched os oedd problem cam-drin yn y cartref, yn enwedig os nad oedd gan y merched ddefnydd o gerbyd.

'Mewn pentrefi bach, sydd heb wasanaeth bysus da iawn, byddai'n anodd i ferched gael y cyfle i siarad ag Ymwelydd lechyd. Mewn trefi,

mae gan ferched esgus i fod wrth ymyl y clinig ond mewn pentrefi bach nid yw yr un fath.'

Cyfathrebu rhwng Ymwelwyr lechyd a Bydwagedd:

Teimlai'r Ymwelwyr lechyd yn y grŵp ffocws fod cyfathrebu gyda Bydwagedd yn broblem, er nad oedd yr Ymwelwyr lechyd yn y sesiwn galw heibio o'r un farn. Roedd y problemau'n gysylltiedig yn bennaf â phrinder amser gan Fydwagedd a phrinder staff. Golygai'r cyfyngiadau hyn nad oedd Ymwelwyr lechyd yn ffyddiog bod gwybodaeth a ddylai fod wedi cael ei phasio iddynt am gam-drin yn y cartref wedi cael ei rhoi iddynt.

'Mae cyfathrebu'n wael iawn. Efallai ei fod yn amrywio o un ardal i'r llall. Maen nhw wedi bod yn gweithio fel timau integredig o Fydwagedd ac yn cael eu llusgo i wardiau i lenwi mewn pan fydd staff yn brin ond maen nhw wedi mynd yn ôl at yr hen ddull. Gallai hyn wneud gwahaniaeth oherwydd roedd eu horiau gwaith hir yn golygu bod cyfathrebu'n wael.'

'Mae llawer ohonynt yn gweithio'n rhan amser ac efallai nad yw'r wybodaeth yn cael ei phasio ymlaen. Weithiau, mae gan Fydwagedd ardaloedd rhy eang'.

Soniodd un Ymwelydd lechyd am gyfyngiadau'r cyfathrebu presennol rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd:

'Er enghraifft, roeddwn ar y ffôn gyda Bydwraig yn siarad am leoliad myfyriwr a digwyddodd â sôn, 'o gyda llaw', bod yna broblem gyda cham-drin yn y cartref. Roedd yn beth da ei bod wedi sôn oherwydd roeddwn yna'n barod pan welais y teulu, ond dim ond gyda llaw oedd o.'

Teimlai'r Ymwelwyr lechyd y byddai'r cyfathrebu rhyngddynt a'r Bydwagedd yn gwella yn y dyfodol agos gan y byddai rhai o'r timau'n cael eu cydleoli, a allai wella cyswllt wyneb yn wyneb. Hefyd, roedd Bydwagedd yn yr Ymddiriedolaeth yn symud i ffwrdd o fodel 'tîm integredig' o weithio (lle byddai Bydwagedd yn cael eu llusgo i wardiau ysbyty os oedd staff yn brin) yn ôl at fod yn fwy sefydlog yn eu cymunedau.

Problemau gweithredu:

Roedd hi'n ddyddiau cynnar ar weithredu yn ardal astudiaeth achos un. Roedd y Bydwagedd a'r Ymwelwyr lechyd i gyd wedi derbyn yr hyfforddiant ond defnydd prin a wnaed o'r ffurflenni DA1 a DA2. Dim ond newydd ddechrau dod trwodd i'r Ymwelwyr lechyd oedd y cofnodion ynghylch defnyddio'r ffurflenni. Dim ond un o'r merched claf a holwyd yn y sesiwn galw heibio i famau a babanod oedd wedi cael ei holi'n arfer am gam-drin yn y cartref.

Lleisiodd un o'r Ymwelwyr lechyd bryder am y bwlch rhwng cyflawni'r hyfforddiant a defnyddio'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2.

'Yr unig beth oedd bod yna fwllch. Weithiau mae ffresni'r wybodaeth o'r hyfforddiant yn cael ei golli'.

Roedd pryderon hefyd ynghylch casglu a storio'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2:

'Rwyf yn poeni braidd am lle mae'r papurau'n mynd. Fy nealltwriaeth i yw eu bod yn mynd i'r D-nodiadau ar gyfer y fam. Ni allwn eu cadw yng nghofnodion y teulu. Ni wyddom lle mae'r papurau'n mynd.'

Roedd Ymwelwyr lechyd yn dibynnu ar Fydwagedd i basio gwybodaeth iddynt am a ddefnyddiwyd y ffurflenni RE DA1 a RE DA2 ai peidio, a'u canlyniadau. Fodd bynnag, nid oedd Ymwelwyr lechyd yn hyderus bod y system yma'n ddibynadwy.

Hefyd, teimlai'r Ymwelwyr lechyd nad oedd dyfodiad y Llwybr wedi'i angori gan oruchwyliaeth gydlynus ffurfiol a fyddai'n sicrhau bod staff yn glynu wrth brosesau'r Llwybr.

Barn merched claf / cleientiaid am yr ymholiad arferol

Yn ystod yr ymweliad â'r sesiwn galw heibio i famau a babanod, roedd cyfle i ofyn i bedair o ferched claf. Pwrpas y cyfweiliadau byr hyn oedd gofyn am farn y merched am yr ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref a hefyd a gawsant ymholiad arferol, a sut yr oedden nhw'n teimlo y deliwyd â fo.

Roedd un o'r merched claf wedi derbyn ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref, a'r tair arall heb.

Roedd yr holl ferched a ofynnwyd y cwestiwn iddynt yn teimlo ei bod yn briodol gofyn am gam-drin yn y cartref. Roeddent yn teimlo ei fod yn dderbyniol fel rhan o'u gofal arferol ac o'u teuluoedd.

Er yn adlewyrchu grŵp bach iawn o ymatebwyr, mae cefnogaeth y merched i'r ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref yn cadarnhau darganfyddiadau astudiaeth arall i agweddau merched, a ddaeth i'r casgliad fod merched yn derbyn yr ymholiad arferol fel rhan o'u gofal (Macey a Bewley, 2001).

Roedd yr un ferch a oedd wedi derbyn ymholiad arferol yn teimlo ei fod yn beth da. Yn ei hachos hi, roedd yr ymholiad wedi'i wneud gan Fydwraig. Gofynnwyd i'r ferch sut yr oedd yn teimlo y deliwyd â'r ymholiad.

'Roedd [y Fydwraig] yn teimlo'n fwy anesmwyth na fi. Os nad ydych yn cyd-dynnu â'r Bydwagedd, gallai fod yn anodd. Roedd yn teimlo embaras bron am y peth'.

Fodd bynnag, nid oedd ots gan y ferch bod y Fydwraig yn teimlo'n chwithig yn gofyn iddi a roedd yn dal i feddwl ei fod yn beth da eu bod yn gofyn i ferched am gam-drin yn y cartref fel mater o drefn.

Teimlai'r tair arall y byddai ymholiad arferol yn beth da i ferched yn gyffredinol gan y byddai'n dod â cham-drin yn y cartref allan o'i guddfan ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ganfod yn amlach.

'Gallai wneud i famau siarad am y peth lle na fyddent fel arall wedi gwneud'.

Arsylwadau eraill:

Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio i famau a babanod mewn meddygfa mewn tref fach, yr unig un yn y dref. Roedd y clinig wedi'i rannu'n unedau ar wahân ar gyfer ymwelwyr ieuchyd, clinig deintyddol a meddygaeth teulu arall, gydag ystafell aros ganolog. Cynhaliwyd y sesiwn galw heibio i famau a babanod y tu ôl i'r brif ystafell aros, a roedd yn cynnwys pwysu'r babanod. Roedd y sesiwn yn gyfle i famau gael eistedd a sgwrsio ac i'r plant gael chwarae gyda theganau. Roedd rhai o'r mamau yn y sesiwn yn ymddangos i fod yn adnabod ei gilydd. Roedd y sesiwn hefyd ar agor i ddynion ac roedd un tad yn bresennol.

Nid oedd y sesiwn galw heibio'n arbennig o addas i ferched er mwyn cael amser preifat gyda'r Ymwelydd Iechyd os oedd ei angen arnynt gan mai sesiwn 'agored' ydoedd, ac roedd dynion hefyd yn gallu mynychu ond, fel y dywedodd yr Ymwelwyr Iechyd a holwyd, byddai'n bosibl 'dyfeisio' cyfle i ferched siarad gyda nhw os oedd angen.

Ar adeg yr ymweliad, nid oedd unrhyw bosteri na gwybodaeth am gam-drin yn y cartref i'w gweld. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cadarnhau a ydyw hyn yn nodweddiadol o sefyllfaoedd gofal ieuchyd eraill ar draws y Sir. Yn wir, yn ôl cynrychiolwyr ardal o'r Grŵp Rhwydweithio Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan, mae deunyddiau ar gam-drin yn y cartref ar gael yn eang i ferched.

Astudiaeth achos dau: ardal drefol

Rhagarweiniad:

Mae astudiaeth achos dau mewn ardal drefol lle'r oedd y Llwybr wedi cael ei weithredu 12 mis cyn yr ymweliad â'r safle.

Aeth yr ymchwilydd i ddwy ward famolaeth i gyfweld Bydwagedd a gweithwyr ieuchyd eraill, gan obeithio gallu cyfweld merched claf ar y ddau safle. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd materion gofal cleifion. Cafodd chwech o Fydwagedd ac un Fydwraig gynorthwyol eu cyfweld yn ardal astudiaeth achos dau.

Roedd yr holl Fydwagedd a holwyd wedi derbyn yr hyfforddiant ar gyfer y Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan.

Roedd y ddau safle yn ardal astudiaeth achos dau yn wardiau wedi eu harwain gan Fydwagedd lle'r oedd merched yn mynychu i roi genedigaeth ac

yn aros am sbel wedyn. Mewn rhai achosion, roedd merched yn dychwelyd i'r uned os oedd problemau'n dilyn y geni. Ond yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr arhosiad yn un byr a roedd y berthynas rhwng y merched claf a'r Bydwagedd hefyd yn dymor byr.

Roedd rhai o'r Bydwagedd a holwyd wedi eu lleoli ar y wardiau, roedd eraill yn Fydwagedd cymunedol a oedd yn dod i'r wardiau pan oedd yr angen yn codi. Fel arfer, byddai'r berthynas a oedd gan y Bydwagedd ar y wardiau gyda'r merched yn un tymor byr.

Ar un ward, roedd tîm o Fydwagedd arbenigol a oedd wedi eu hyfforddi i weithio gyda theuluoedd agored i niwed, er enghraifft lle'r oedd problem gyda chamddefnyddio sylweddau neu amddiffyn plant.

Ar ddiwrnod yr ymweliadau â'r wardiau, sylwyd bod y Bydwagedd yn brysur iawn ac yn brin o staff. Nid oedd hyn yn anghyffredin, yn ôl y staff.

Sut oedd y Bydwagedd yn teimlo am ddefnyddio'r Llwybr:

Roedd y Bydwagedd yn teimlo bod y Llwybr yn ddefnyddiol; y byddai mwy o gam-drin yn y cartref yn cael ei ganfod ac y byddai mwy o ferched sy'n dioddef yn cael eu helpu o ganlyniad.

Teimlai'r Bydwagedd yn teimlo bod yr ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref wedi'i wreiddio'n dda yn ardal yr astudiaeth achos a'i fod bellach yn rhan o ymarfer beunyddiol ar y wardiau ac mewn Bydwreigiaeth gymunedol.

Rhwystrau:

Yn ardal astudiaeth achos dau, teimlai'r Bydwagedd fod problemau o hyd gyda dod o hyd i amser cyfrinachol ar eu pen eu hunain gyda merched i ofyn y cwestiwn am gam-drin yn y cartref. Teimlwyd na allai'r hyfforddiant fynd i'r afael â'r broblem hon yn hawdd.

Teimlwyd fod trafferthion dod o hyd i amser cyfrinachol ar eu pen eu hunain gyda merched yn broblem arbennig adeg yr apwyntiad trefnu.

'...oherwydd bod y tadau'n tueddu i fod yno ar y dechrau gan eu bod yn gyffro i gyd, ac mae'n anodd cael y merched ar eu pen eu hunain. Efallai bod yr ail apwyntiad ar ôl wyth wythnos yn fwy priodol'.

Mater arall o bryder i rai o'r Bydwagedd a holwyd yw cael digon o amser i wneud yr ymholiad i gam-drin yn y cartref.

'mae'r apwyntiadau trefnu mor brysur fel ei bod yn anodd dod o hyd i amser i ofyn i ferched. Mae gymaint i'w wneud yn ystod y trefnu fel ei bod yn anodd cael amser'. Mae'n well weithiau aros tan yr ail apwyntiad'.

Roedd hefyd rhai problemau ynghylch diogelwch ar un o'r wardiau.

Sylwodd yr ymchwilydd nad oedd diogelwch yn arbennig o dynn a bod pobl nad oeddent yn gleifion yn crwydro i mewn ac allan o'r ward, er gwaetha'r system intercom.

Y prif ffactorau:

Thema gref i ddod allan o'r ymweliadau ag ardal astudiaeth achos dau oedd bod y cynghorwr amddiffyn plant arbenigol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth, cymorth a chynngor i staff.

Hysbysebwyd rhif ffôn y cynghorwr amddiffyn plant ar waliau ystafell gyffredin y staff a dywedodd nifer o'r Bydwagedd mai'r cynghorwr amddiffyn plant fyddai'r person i gysylltu â hi os oedd unrhyw broblemau neu bryderon am ferch. Er enghraifft:

'Un peth sy'n aneglur yw beth i'w wneud os yw merch yn datgelu ei bod wedi cael profiad o gam-drin yn y cartref 20 mlynedd yn ôl. Byddwn yn gallu siarad â Bydwagedd eraill neu gyda'r cynghorwr Amddiffyn Plant am hyn.'

Ar ddechrau defnyddio'r Llwybr, roedd Bydwagedd yn poeni sut y byddai merched yn ymateb i'r ymholiad arferol ond teimlwyd fod yr hyfforddiant wedi tawelu eu meddyliau ynghylch sut i fynd ati i ofyn y cwestiwn.

Roedd y Bydwagedd wedi magu hyder drwy brofiad o ofyn i ferched am gam-drin yn y cartref ac erbyn hyn yn gyffyrddus gyda defnyddio'r ymholiad arferol.

Arsylwadau eraill:

Dywedodd gweinyddwraig y ward ar un safle nad oedd y diogelwch yn foddhaol. Mae gan y ward system ffôn mynediad ddiogel a rhoddir mynediad i'r staff drwy ddefnyddio cardiau pwrpasol. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl gweld yr ymwelwyr a oedd yn aros i gael eu gadael i mewn heb adael y dderbynfa, felly roedd pobl yn cael mynediad yn awtomatig os oedd y ward yn brysur. Roedd yn hawdd i deuluoedd (neu bobl eraill) gael mynediad a cherdded o gwmpas y ward. Roedd yn amlwg, pe bai merch yn teimlo'n ansicr neu'n ofnus, na fyddai'r trefniadau diogelwch yn rhoi tawelwch meddwl iddi.

Ardal astudiaeth achos tri: ardal drefol a gwledig gymysg

Rhagarweiniad:

Ardal drefol a gwledig gymysg yw ardal astudiaeth achos tri lle cafodd y Llwybr ei weithredu gyntaf tua phum mis cyn yr ymweliadau â'r safle.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau gyda'r Bydwagedd ar ward lafur ysbyty wedi ei harwain gan Fydwagedd. Holwyd y Bydwagedd cymunedol a'r Bydwagedd ward. Nid oedd y ward yn arbennig o brysur ar adeg y cyfweiliadau. Yn ystod

yr ymweliad, roedd clinig cynenedigol hefyd yn cael ei gynnal mewn rhan arall o'r ward.

Sut oedd y Bydwragedd yn teimlo am ddefnyddio'r Llwybr:

Ar y cyfan, roedd y Bydwragedd yn gadarnhaol am y Llwybr ac yn ymwybodol o'r canlyniadau dymunol o gynyddu datgelu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, roedd cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch beth fyddai'r Llwybr yn ei olygu i ymarfer beunyddiol y Bydwragedd. Y rheswm am hyn oedd nad oedd y Bydwragedd wedi cael llawer o brofiad eto o weld neu ddefnyddio'r Llwybr yn ymarferol. Dim ond newydd ddechrau 'dod trwodd' oedd ffurflenni'r Ymholiad Arferol.

Gweithredu:

Roedd ardal yr Ymddiriedolaeth dal yn y broses o benderfynu ynghylch polisiau allweddol ar gyfer proses y Llwybr. Y bwriad oedd eu penderfynu'n derfynol wrth i'r Llwybr aeddfedu. Er enghraifft, roedd trafodaethau mewnol wedi datgelu y gallai fod problem gyda dod o hyd i amser cyfrinachol ar eu pen eu hunain gyda merched i wneud yr ymholiad. Mewn ymateb i hyn, roedd yr Ymddiriedolaeth yn y broses o benderfynu a ddylai ddod yn bolisi ar draws yr Ymddiriedolaeth bod ymholiad cychwynnol i gam-drin yn y cartref yn cael ei wneud mewn clinig ac nid yng nghartref y ferch, gan mai'r teimlad oedd bod clinigau'n rhoi mwy o gyfle i weithwyr iechyd fod ar eu pen eu hunain gyda merched. Ar yr un pryd, roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried a ddylai fod yn bolisi ar draws yr Ymddiriedolaeth bod apwyntiadau trefnu ond yn digwydd mewn clinig ac nid yng nghartref y ferch. Y rheswm am hyn oedd pryderon ynghylch diogelwch personol staff iechyd wrth gyflawni apwyntiadau trefnu yng nghartrefi cleifion.

Yn ystod dyddiau cynnar y Llwybr yn ardal astudiaeth achos tri, penderfynwyd na fyddai gweithwyr iechyd yn llenwi'r ffurflenni RE DA1 ond yn defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen i ysgogi'r ymholiad arferol. Roedd cofnod bod ymholiad wedi'i wneud yn cael ei wneud drwy roi tic ar nodiadau llaw'r claf.

Nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi penderfynu eto sut i storio'r wybodaeth ar y ffurflenni RE DA2. Y broblem oedd gan yr Ymddiriedolaeth oedd bod yr unedau a oedd wedi eu harwain gan Fydwragedd ar ddau wahanol safle o fewn yr Ymddiriedolaeth ac, felly, nid oedd yn glir ar ba safle y byddai'r ffurflenni RE DA2 yn cael eu storio.

Eto, nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pryd i wneud yr ail ymholiad RE DA1 oherwydd diffyg profiad o ddefnyddio'r Llwybr. Teimlai'r Bydwragedd a holwyd y dylai'r ail ymholiad fod nes ymlaen yn ystod y beichiogrwydd neu yn fuan ar ôl y geni, ac efallai gan Ymwelwyr Iechyd. Eto, y teimlad oedd mai materion ar y gweill oedd y rhain ac y byddent yn cael eu datrys wrth i'r Llwybr aeddfedu yn yr ardal.

Nid oedd y Bydwagedd eu hunain yn arbennig o sicr ynghylch sut y byddai'r Llwybr yn effeithio ar eu hymarfer gan nad oeddent wedi cael llawer o gyfle i ddefnyddio'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2.

Roedd y Bydwagedd hefyd yn aneglur ynghylch lle'r oedd y wybodaeth ar y ffurflenni RE DA2 i gael ei storio a hefyd pwy i ofyn iddynt am gyngor proffesiynol ar gam-drin yn y cartref pe bai'n cael ei ddatgelu iddynt.

Rhwystrau:

Y prif rwystrau i weithredu'r Llwybr oedd rhai'n ymwneud â diffyg aeddfedrwydd y Llwybr yn yr ardal. Mae'r problemau hyn yn debygol o gael eu goresgyn wrth i'r Llwybr gael ei ddefnyddio. Oherwydd nad oedd yr un o'r ymarferwyr a holwyd wedi cael cyfle i ddefnyddio'r Llwybr yn eu gwaith, roeddent yn ansicr beth fyddai effaith gofyn y cwestiynau. Fodd bynnag, roedd y Bydwagedd ar y cyfan yn obeithiol y byddai'r Llwybr yn arwain at ganfod fwy o achosion o gam-drin yn y cartref ac y byddai merched yn derbyn bod angen gofyn y cwestiwn.

Roedd hyfforddiant y Llwybr wedi helpu i ateb rhai o ofnau a phryderon y Bydwagedd am ddefnyddio'r Llwybr ond dywedodd y rhai a holwyd bod angen profiad cyn y gallent deimlo'n wirioneddol hyderus.

Y prif ffactorau:

Teimlai'r Bydwagedd fod cyfathrebu da rhwng y Bydwagedd a'r Ymwelwyr lechyd yn ardal astudiaeth achos tri ac y byddai hyn yn sicrhau y byddai'r Llwybr yn cael ei weithredu'n dda. Y rheswm am y cyfathrebu da meddent oedd y sesiynau trosglwyddo ffurfiol gyda'r Ymwelwyr lechyd a hefyd y ffaith bod y Bydwagedd wedi eu trefnu mewn timau ardal, ynghlwm wrth ardaloedd arbennig. Roedd hyn yn sicrhau rhywfaint o barhad gofal i'r cleifion.

Arsylwadau eraill:

Ar adeg yr ymweliad, nid oedd unrhyw bosteri na gwybodaeth am gam-drin yn y cartref i'w gweld. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cadarnhau a ydyw hyn yn nodweddiadol o sefyllfaoedd gofal iechyd eraill ar draws y Sir.

3) Materion yn codi o'r ymchwil maes yn ôl thema

Mae'r adran yma'n mynd i'r afael â'r prif faterion a ddaeth allan o'r astudiaeth werthuso yn ôl thema. Mae'n cyffwrdd â phob agwedd ar yr ymchwil maes.

Cyswllt Ymwelwyr lechyd â cham-drin yn y cartref

Nodyn cyffredin o'r arolwg post yw bod Ymwelwyr lechyd yn ymddangos i roi gwybodaeth fwy manwl wrth ymateb, gan awgrymu bod ganddynt fwy o gyswllt â cham-drin yn y cartref. Gallai hyn fod oherwydd bod gan Ymwelwyr

lechyd fwy o amser neu le i lenwi'r holiadur, er na phrofwyd y posibilrwydd hwn yn ystod yr ymchwili.

Mae'r syniad bod Ymwelwyr lechyd eisoes yn cael mwy o gyswllt â cham-drin yn y cartref wedi'i awgrymu gan nifer o sylwadau digymell a wnaed gan Ymwelwyr lechyd yn yr arolwg post, er enghraifft: *'Mae Ymwelwyr lechyd eisoes yn delio gyda cham-drin yn y cartref ac mae'n rhan o'u hymarfer yn barod'*. Fodd bynnag, dylid nodi mai pwrpas y Llwybr yw ffurfioli'r ymateb i gam-drin yn y cartref, hyd yn oed os oes arferion da eisoes yn eu lle. Cafodd y nod hwn i ffurfioli ymateb gweithwyr lechyd ei argymhell gan chweched adroddiad yr Ymholiad Cyfrinachol i lechyd Mamau a Phlant (CEMACH, 2004).

Pwynt pwysig i ddod allan o'r arolwg post oedd bod gan Ymwelwyr lechyd, ar y cyfan, lai o brofiad o ddefnyddio'r Llwybr na Bydwagedd. Mewn sawl achos, rhoddwyd atebion i gwestiynau'r arolwg post megis *'mae'n rhy fuan i ddweud'*. Mae'r ymateb hwn i'w ddisgwyl gan mai rôl yr Ymwelydd lechyd yw gofyn i ferched dim ond os nad yw'r Fydwaig wedi gallu gwneud yr ymholiad arferol. Mae hyn yn golygu fod Ymwelwyr lechyd yn cael profiad o ddefnyddio'r Llwybr yn llawer diweddarach na Bydwagedd.

<i>Soniodd yr Ymwelwyr lechyd yn aml am eu pryder ynghylch y diffyg cyfathrebu gyda Bydwagedd a dryswch ynghylch pryd ddylai Ymwelwyr lechyd fod yn gwneud ymholiad cychwynnol i gam-drin yn y cartref.</i>
--

Roedd 14% o atebion yr Ymwelwyr lechyd i'r cwestiwn *'beth yw'r pethau pwysicaf i sicrhau bod y Llwybr yn cael ei ddefnyddio'r effeithiol?'* wedi eu codio fel *'rhaid inni sicrhau defnydd gwirioneddol'* neu *'nid yw'r Llwybr yn cael ei ddefnyddio'*. Gallai hyn yn adlewyrchu oedi gyda'i weithredu ond, er hynny, dywedodd yr Ymwelwyr lechyd nad oeddent yn ffyddiog bod prosesau'r Llwybr yn cael eu dilyn. Cafodd hyn ei gefnogi gan rai o'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymweliad â safle'r astudiaeth achos lle holwyd Ymwelwyr lechyd.

Roedd 20% o atebion yr Ymwelwyr lechyd i'r cwestiwn *'beth yw'r pethau pwysicaf i sicrhau bod y Llwybr yn cael ei ddefnyddio'r effeithiol?'* yn *'cyfathrebu effeithiol rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd'*, sy'n dangos pa mor bwysig yw cyfathrebu rhwng y ddau grŵp i sicrhau bod Ymwelwyr lechyd yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r Llwybr.

Rhywbeth arall a gododd yn ystod ymweliadau'r astudiaeth achos oedd pryder ynghylch y llif gwybodaeth rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd, gyda nifer yn dweud na wyddent sut i gael gwybod sut i ddefnyddio'r ffurflenni RE DA1 neu nad oeddent yn hyderus y byddent yn gallu rhannu gwybodaeth gyda Bydwagedd. Teimlai'r Ymwelwyr lechyd fod y pryder ynghylch rhannu gwybodaeth gyda Bydwagedd yn broblem arbennig yng nghyswllt gwybodaeth am hanes blaenorol o gam-drin yn y cartref y gallai merched fod wedi ei brofi yn ystod beichiogrwydd blaenorol.

Soniodd nifer fach o'r Ymwelwyr lechyd a lenwodd yr holiaduron post am eu pryder fod yr hyfforddiant yn canolbwyntio'n ormodol ar rôl Bydwagedd a dim digon ar rôl yr Ymwelydd lechyd.

Mabwysiadu egwyddorion y Llwybr a'r rhwystrau i wneud hyn

Ar y cyfan, roedd y prif resymau y tu ôl i'r Llwybr yn cael eu derbyn. Roedd y rhan fwyaf yn derbyn y farn y byddai gweithwyr ieuchyd yn dod yn fwy ymwybodol o gam-drin yn y cartref o ganlyniad i'r Llwybr a'r hyfforddiant ac, felly, y byddai pobl yn fwy agored am gam-drin yn y cartref.

Fodd bynnag, yn ôl yr arolwg, roedd rhwystr sylweddol i gyflawni canlyniadau'r Llwybr. Y rhwystr hwn yw'r drafferth y mae gweithwyr ieuchyd yn ei gael i gael merched ar eu pen eu hunain i ofyn am gam-drin yn y cartref. Y rheswm oedd bod partneriaid neu aelodau eraill o'r teulu yn bresennol. Mae'r rhwystr hwn yn ymddangos i awgrymu mai Bydwagedd *cymunedol* efallai sydd yn y sefyllfa orau i ofyn y cwestiwn RE DA1 cychwynnol oherwydd eu bod yn fwy tebygol o gael mwy o amser gyda merched yn amgylchedd preifat eu cartrefi. Fodd bynnag, teimlwyd fod yna rwystrau i'r dull hwn hefyd gan fod Bydwagedd wedi lleisio pryder am eu diogelwch eu hunain wrth ymweld â'r merched yn eu cartrefi. Yn ogystal, mewn ardaloedd o ddiweithdra uchel, roedd y partneriaid yn debygol o fod yn bresennol yn y cartref oherwydd nad oeddent allan yn gweithio.

Soniodd yr Ymwelwyr lechyd hefyd am drafferth cael merched ar eu pen eu hunain, i fwrdd o bartneriaid ac aelodau eraill o'r teulu, er eu bod yn fwy tebygol o ymweld â merched yn eu cartrefi. Mae'r ffactorau hyn i gyd yn rhwystr i sicrhau bod y Llwybr yn cyflawni ei ganlyniadau dymunol.

Roedd rhwystrau eraill yn cynnwys prinder amser a phwysau gwaith, gan Fydwagedd yn enwedig. Er enghraifft:

'...Mae rhedeg clinig prysur gyda nifer o ferched yn aros i gael eu gweld yn golygu nad oes fawr o amser i ofyn y cwestiwn [am gam-drin yn y cartref]'.

Soniodd nifer fach o'r rhai a holwyd ei bod hefyd yn anodd holi am gam-drin yn y cartref yn ystod apwyntiadau trefnu oherwydd yr holl wybodaeth arall sydd angen ei chasglu ar yr un pryd.

Cyfathrebu rhwng Ymwelwyr lechyd a Bydwagedd

Soniodd Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd am broblemau gyda chyfleu gwybodaeth am ddefnyddio'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2 rhwng Ymwelwyr lechyd a Bydwagedd.

Mae'r broses o ddefnyddio'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2 fel a ganlyn:

Defnyddio'r Llwybr - trosolwg:

- *Bydwagedd i holi unwaith yn ystod yr apwyntiad trefnu ac unwaith eto*

cyn geni'r babi, yn defnyddio'r ffurflen RE DA1

- *Mae cofnod o a wnaed ymholiad RE DA1 neu beidio yn cael ei wneud ar ffurf cod ar nodiadau llaw y claf ac mae'r ffurflen RE DA1 ei hun yn cael ei chadw gyda nodiadau meddygol y claf, sy'n cael eu rhoi i'r Ymwelwyr lechyd. Nid yw'r ffurflen RE DA1 byth yn cael ei chadw gyda chofnodion llaw y claf.*
- *Os yw claf wedi datgelu cam-drin yn y cartref, mae ymholiad RE DA2 yn cael ei wneud a chofnod o a wnaed hyn neu beidio hefyd yn cael ei gofnodi yn nodiadau llaw'r claf, ar ffurf cod. Mae'r ffurflen ei hun yn cael ei chadw gyda'r nodiadau meddygol a byth gyda'r nodiadau llaw.*
- *Os nad yw'r Fydwraig wedi gallu cyflawni ymholiad RE DA1, dylid cofnodi hyn gan roi'r rhesymau pam. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Ymwelwyr lechyd yna'n gwneud yr ymholiad.*

Yn ymarferol, nid yw cyfnewid gwybodaeth rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd ynghylch cyflawni'r ymholiad RE DA1 yn digwydd yn gyson. Mewn rhai achosion, nid oedd Ymwelwyr lechyd yn ymwybodol bod 'unrhyw wybodaeth' ar ffurflenni RE DA1 wedi 'dod trwodd'. Ar un safle a oedd yn rhan o'r astudiaeth achos, nid oedd Bydwagedd ar ward lafur yn ymwybodol o sut i gael gafael ar wybodaeth am RE DA1 neu RE DA2. Ar safle arall, dywedodd rhai Bydwagedd wedi eu lleoli ar ward lafur nad oeddent wedi gweld y codau ar gyfer yr ymholiad RE DA1 na RE DA2 a oedd i fod ar gofnodion y claf.

I raddau helaeth, mae'r problemau hyn i'w disgwyl wrth i weithredu aeddfedu. Yn yr ardaloedd hynny lle mae hi'n ddyddiau cynnar o hyd arnynt yn gweithredu'r Llwybr, ni fyddai'r holl Fydwagedd wedi dechrau ei ddefnyddio ac ni fyddent eto wedi casglu'r wybodaeth am yr ymholiadau RE DA1.

Fodd bynnag, rhaid i bob Ymddiriedolaeth gael proses o sicrhau bod y wybodaeth ynghylch a wnaed ymholiad ai peidio wedi cael ei phasio ymlaen yn systematig i Ymwelwyr lechyd perthnasol. Dim ond hyn a hyn o wybodaeth y gellir ei chadw mewn nodiadau llaw oherwydd cyfrinachedd, felly rhaid cael proses gadarn o storio a phasio gwybodaeth, am yr ymholiad ac unrhyw fanylion pellach ar asesu risg, cyfeirio at a rôl asiantaethau eraill, yn ei lle.

Anghenion cymorth a hyfforddiant Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd ar gyfer defnyddio'r Llwybr

Mae pob Bydwraig ac Ymwelydd lechyd i fod i dderbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r Llwybr yn ogystal â rhywfaint o gefndir a chodi ymwybyddiaeth am gam-drin yn y cartref. Mae'r hyfforddiant yn seiliedig ar y pecyn hyfforddi sydd wedi'i ddatblygu gan y Grŵp Rhwydweithio.

Teimlai nifer o'r rhai a holwyd ar gyfer yr arolwg ac yn ystod yr astudiaethau achos y dylid cefnogi'r hyfforddiant naill ai gan sesiynau 'gloywi' hyfforddiant neu gan gymorth drwy oruchwyliaeth glinigol.

Un broblem y tynnwyd sylw ati gyda'r hyfforddiant, yn enwedig i Ymwelwyr lechyd, oedd cyfnod rhy hir rhwng yr hyfforddiant a gweithredu'r Llwybr.

Roedd hyn yn golygu, mewn rhai achosion, fod Ymwelwyr lechyd yn teimlo eu bod wedi anghofio beth i'w wneud gyda'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2. Gan fod Ymwelwyr lechyd yn llai tebygol o fod wedi defnyddio'r ffurflenni yn eu hymarfer eto, o gofio mai Bydwagedd sydd i fod i wneud yr ymholiad cychwynnol, mae'r angen am gyrsiau diweddarau neu 'loywi' i Ymwelwyr lechyd efallai'n fwy perthnasol fyth iddynt hwy.

Teimlai nifer o'r rhai a holwyd nad oedd yn rhaid i'r sesiynau diweddarau neu 'loywi' fod ar ffurf sesiwn hyfforddi ffurfiol o reidrwydd, ac y gellid ei wneud drwy oruchwyliaeth glinigol neu drwy ddosbarthu deunyddiau.

Cyswllt gydag asiantaethau allanol

Lleisiodd gweithwyr ieuchyd rywfaint o bryder ynghylch sut i gael cyswllt gyda gwasanaethau eraill y tu allan i'r maes gofal ieuchyd a pha wasanaethau ac adnoddau oedd ar gael i ferched os oeddent yn datgelu cam-drin yn y cartref.

'Roedd yr hyfforddiant yn ocê ond heb ddigon o ffocws ar sut orau i gefnogi merched a oedd yn datgelu'.

'Dylai fod mwy o wybodaeth am sut i gefnogi merched yn eu cartrefi eu hunain'.

Fodd bynnag, teimlwyd hefyd y byddai'r ansicrwydd hwn yn lleihau unwaith y byddai'r Llwybr wedi gwreiddio'n well.

Er gwaetha'r pryderon ynghylch gweithio gydag asiantaethau eraill, i bob golwg roedd cefnogaeth frwd dros weithio gyda'r System Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC), a oedd yn ymddangos i fod yn gweithio'n dda ym marn y gweithwyr ieuchyd. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer achosion risg uchel o gam-drin yn y cartref y bwriedir y cynadleddau hyn.

Yn yr arolwg post, rhoddodd 14% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn *'beth yw'r pethau pwysicaf i sicrhau bod y Llwybr yn cael ei ddefnyddio'r effeithiol?'* drwy ddweud *'cydweithrediad aml-asiantaeth'.*

Yn ystod ymweliadau'r astudiaethau achos, hefyd, roedd ansicrwydd ynghylch lle i gyfeirio merched ar ôl iddynt ddatgelu cam-drin yn y cartref. Soniodd Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd am y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu fel asiantaethau a allai helpu ond ni soniwyd am unrhyw fudiadau gwirfoddol yn ystod ymweliadau'r astudiaethau achos.

Hyder gweithwyr ieuchyd wrth ddefnyddio'r Ymholiad Arferol

Yn ôl yr ymatebion i gyfweiliadau'r astudiaethau achos, roedd rhai gweithwyr ieuchyd dal yn poeni am godi'r mater o gam-drin yn y cartref gyda merched. Lleisiwyd y pryderon hyn fel *'ddim yn teimlo'n gyffyrddus'* neu *'ddim eisiau pechu yn erbyn merched'*. Fodd bynnag, ni theimlwyd bod nerfusrwydd

ynghylch codi'r mater o gam-drin yn y cartref yn atal gweithwyr ieched rhag cyflawni ymholiad arferol.

Teimlwyd hefyd y byddai gofyn i ferched am gam-drin yn y cartref yn haws unwaith yr oedd y gweithwyr ieched wedi cael cyfle i ddefnyddio'r Llwybr a bod y cwestiynu'n dod yn 'ail natur' iddynt.

Tynnwyd sylw yn yr ymchwil at y ffaith bod angen mwy o gymorth a datblygiad parhaus ar weithwyr ieched ynghylch sut i ddelio â cham-drin yn y cartref.

Cyfngiadau'r Llwybr

Yn ystod yr hyfforddiant ar gyfer y Llwybr, cynghorir gweithwyr ieched mai eu rôl yw adnabod a chyfeirio merched at gymorth pellach, os bydd ei angen arnynt, mewn ymateb i gam-drin yn y cartref. Yn hyn o beth, mae rôl y gweithiwr ieched yn gyfyngedig. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwil, soniodd nifer o'r gweithwyr ieched am eu rhwystredigaeth na allent wneud mwy i helpu merched a oedd yn dioddef o gam-drin. Roedd hyn oherwydd nad oedd y merched eisiau i bobl wybod eu bod yn dioddef neu nad oeddent mewn sefyllfa i ofyn am gymorth.

Mae hyfforddiant y Llwybr yn pwysleisio y dylid holi merched heb farnu a heb wthio'r merched yn rhy galed i newid eu sefyllfa, oherwydd y gallai hyn ynddo'i hun sbarduno camdriniaeth. Dywedodd rhai gweithwyr ieched y byddent yn hoffi gallu gwneud mwy i helpu merched ond eu bod yn teimlo mai 'dim ond hyn a hyn y gallent ei wneud' os na allai'r merched eu hunain ddelio gyda'r broblem.

Dywedodd rhai gweithwyr ieched eu bod eisiau gwybod beth i'w wneud mewn sefyllfaoedd lle maen nhw'n gwybod bod cam-drin yn digwydd ond nad yw'r cleifion yn barod i drafod y problemau. Gallai hyn fod yn faes arall lle mae angen canllawiau a chymorth pellach ar weithwyr ieched.

Yr oruchwyliaeth sydd ei hangen ar weithwyr ieched

Gofynnwyd i staff yn ardaloedd yr astudiaethau achos am y cymorth beunyddiol yr oeddent yn ei dderbyn gyda cham-drin yn y cartref.

Yn gyffredinol, yn ardaloedd yr astudiaethau achos, teimlai gweithwyr ieched eu bod yn cael digon o gymorth a chynghor mewn achosion lle'r oeddent yn teimlo bod angen arweiniad pellach arnynt. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod rhai gweithwyr ieched yn dal i deimlo braidd yn aneglur ynghylch proses y Llwybr ei hun. I'w helpu, mae siart llif sy'n egluro proses y Llwybr ar gael yn y pecyn hyfforddi (gweler atodiad pedwar). Byddai'n syniad da chwythu'r siart llif hwn i faint poster a'i roi ym mannau cyffredin y staff, lle bo hynny'n briodol.

Roedd gweithwyr ieched hefyd yn teimlo bod angen goruchwyliaeth ffurfiol arnynt ar sut i weithio gyda merched lle gallai cam-drin yn y cartref fod yn broblem. Er bod peth goruchwyliaeth a chymorth ar gael gan y cynghorwyr

amddiffyn plant, teimlai Ymwelwyr lechyd nad oedd yn hawdd cael gafael ar yr oruchwyliaeth yma. Tynnwyd sylw hefyd yn ystod ymweliadau'r astudiaethau achos at bwysigrwydd cymorth gan gydweithwyr gyda cham-drin yn y cartref. Mae Ymwelwyr lechyd, yn enwedig, yn gallu gweithio mewn ffyrdd go ynysig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a theimlwyd bod cymorth gan gydweithwyr yn beth pwysig.

Roedd cyfranogwyr yng nghyfweliadau'r astudiaethau achos yn ystyried ei bod yn bwysig i Fydwagedd ac Ymwelwyr lechyd wybod y medrant siarad yn anffurfiol am gam-drin yn y cartref, efallai gyda chydweithwyr mwy profiadol. Byddai hyn yn ymddangos i brofi bod angen swyddog neu gynghorwr penodol ar gam-drin yn y cartref ym mhob un ardal Ymddiriedolaeth.

Gweithredu

Un o'r prif feysydd holi ar gyfer yr ymchwil oedd sut oedd y Llwybr wedi cael ei weithredu ar draws Cymru.

Er bod prosiect y Llwybr yn cael ei chydlynw gan grŵp Rhwydweithio wedi'i arwain gan Lywodraeth y Cynulliad, mater i bob Ymddiriedolaeth yw trefnu'r hyfforddiant ar gyfer a gweithrediad y Llwybr. Byddai hyn yn anochel yn arwain at wahanol brofiadau a dulliau gweithredu. Roeddem yn awyddus i ganfod beth oedd y ffactorau a'r rhwystrau posibl i weithredu effeithiol a'u cymharu gyda phrofiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Yr amgylchedd gweithredu ehangach

Mae gweithrediad y Llwybr yn cael ei gydlynw gan yr Ymddiriedolaethau unigol. Cyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth yw trefnu hyfforddiant a dod o hyd i gyllid i ddarparu'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2, sy'n rhan o'r Llwybr. Mae'r broses o weithredu'r hyfforddiant a'r gwaith papur yn cael ei thrin mewn ffyrdd gwahanol ar draws Cymru ac mae'r amgylchedd gweithredu'n amrywio o un ardal i'r llall.

Soniodd dwy o'r Penaethiaid Bydwagedd a holwyd am rôl Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gyda gweithredu'r Llwybr. Soniodd un am y broses o gael cefnogaeth i'r Llwybr gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, tra soniodd un arall am ddod o hyd i gyllid gan yr Ymddiriedolaeth i gefnogi'r Llwybr.

'Cafodd y Llwybr ei lansio o fewn yr Ymddiriedolaeth, do. Roedd yn rhaid imi fynd drwy Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a, wyddoch chi, drwy'r prosesau ffurfiol o fewn yr Ymddiriedolaeth. Ac yna cafodd y Llwybr ei lansio'n ffurfiol cyn ei weithredu.'

'Nid oedd gennym unrhyw gymorth ariannol felly roedd yn rhaid inni ddod o hyd i'r cyllid yn fewnol.'

Yn y ddau achos, penderfynodd yr Ymddiriedolaethau gefnogi'r ceisiadau am adnoddau ond roedd hyn, o'r herwydd, wedi achosi oedi gyda'r hyfforddiant a

gweithredu'r Llwybr. Ni soniodd unrhyw un a holwyd am drafferth cael yr Ymddiriedolaethau i fabwysiadu'r Llwybr fel polisi yn y lle cyntaf. Mae'n debyg bod hyn oherwydd lefel uchel yr ymrwymiad ar draws y GIG yng Nghymru i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref.

Mewn rhai ardaloedd, roedd rhwystrau a wynebir gan weithwyr iechyd yn gysylltiedig ag argaeledd gwasanaethau ac asiantaethau y tu allan i'r sector iechyd sy'n darparu cymorth i ferched os ydynt yn datgelu cam-drin yn y cartref. Soniwyd am hyn yn yr holiaduron post ac yn ystod ymweliadau'r astudiaethau achos. Ffactor bwysig ar gyfer gweithredu'r Llwybr yn llwyddiannus yn sicr yw argaeledd a chysylltiadau da gydag asiantaethau partner fel yr Heddlu a Chymorth i Fenywod. Dywedodd y merched a holwyd a ddaeth drwy sefyllfa cam-drin yn y cartref fod hyn yn bwysig hefyd, a deimlai fod Ymwelwyr Iechyd wedi eu cyfeirio at asiantaethau cymorth defnyddiol.

Mae'r seilwaith cymorth ehangach ar gyfer cam-drin yn y cartref yn ffactor ddryslyd bosibl o ran sut y gweithredir neu y defnyddir y Llwybr gan weithwyr iechyd. Er enghraifft, mewn un ardal Ymddiriedolaeth, soniwyd bod Swyddog Cyswllt Cam-drin yn y Cartref yr Heddlu yn greiddiol i wella cydweithrediad rhwng Ymwelwyr Iechyd a'r Heddlu, ond cyn penodi'r Swyddog Cyswllt bod y cyfathrebu gyda'r Heddlu wedi bod yn anodd. Mewn ardal arall, soniwyd bod agwedd gweithwyr Cymdeithasol unigol yn bwysig gyda phenderfynu'r canlyniadau i ferched os ydynt yn datgelu. Mae ffactorau fel argaeledd a safon asiantaethau allanol fel rheol y tu hwnt i reolaeth gweithwyr iechyd unigol, a hyd yn oed Ymddiriedolaethau'r GIG ond, er hynny, mae'n dangos pa mor bwysig yw cyswllt uwch-randdeiliaid â mudiadau y tu allan i'r GIG i sicrhau bod partneriaethau'n cael eu datblygu gymaint â phosibl.

Mae darganfyddiadau o astudiaethau cenedlaethol a rhyngwladol eraill yn sôn am bwysigrwydd cefnogi hyfforddiant cam-drin yn y cartref i staff iechyd proffesiynol, gyda chymorth proffesiynol parhaus a seilwaith cymorth ehangach cadarn. Yn ôl Macey a Bewley (2001), er enghraifft '*heb gefnogaeth y sefydliad i sgrinio cam-drin yn y cartref, hyfforddiant a chymorth parhaus i'r staff proffesiynol perthnasol, ac argaeledd adnoddau penodol yn y gymuned i gyfeirio merched sy'n datgelu trais yn y cartref, nid yw unrhyw argymhelliad bod staff y GIG yn sgrinio'n arferol am gam-drin yn y cartref yn gynaliadwy*' (Macey a Bewley, 2001, t.3).

Eto, mae Heise a'i chydweithwyr (1999) yn awgrymu nad yw'n bosibl i weithwyr iechyd fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref drwy addysgu staff yn unig; mae angen diwygiadau ar draws y sefydliadau: '*I sicrhau newid parhaol, mae angen gweddnewid y system iechyd ei hun yn ogystal â newid ymddygiad darparwyr unigol. Pan fydd rheolwyr, gweinyddwyr a'r system gofal iechyd ei hun yn annog a gwobrwyo ymddygiad gofalu newydd tuag at rai sy'n dioddef cam-drin yn y cartref, bydd darparwyr yn teimlo y medrant adnabod a delio gyda thrais yn well*' (Heise et al, 1999¹).

¹ www.inforhealth.org/pr/111/111boxes.shtml#strength

Mae darganfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn cefnogi ymchwil Heise et al a Macey a Bewley o ran y ffactorau amgylchedd gweithredu ehangach sydd angen iddynt fod yn eu lle os yw'r gwasanaethau iechyd i ddelio'n iawn gyda cham-drin yn y cartref.

Thema gref i ddod allan o'r gwaith ymchwil hwn yw bod angen hyfforddiant a chymorth parhaus i sicrhau bod y Llwybr yn cael ei weithredu orau. Roedd gweithwyr iechyd dal yn ansicr, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oedd gweithrediad y Llwybr yn aeddfed iawn, ynghylch sut i godi'r pwnc o gam-drin yn y cartref gyda merched a dod o hyd i amser preifat gyda merched. Yn naturiol, roedd gweithwyr iechyd mwy profiadol yn fwy hyderus ond dylai gweithredu proses Cymru gyfan fynd i'r afael â'r rhai lleiaf hyderus, i sicrhau rhywfaint o gymhwysedd.

Awgrymodd rhai Uwch Fydwagedd na ddylid mesur gweithredu yn nhermau'r nifer sy'n cael eu cyfeirio, ond hefyd yn ôl lefelau hyder a faint y mae prosesau'r Llwybr wedi cael eu 'normaleiddio' ar draws y gwasanaeth cyfan. Fel y dywedodd un o'r rhai a holwyd:

'Pe gallem gyrraedd y pwynt lle mae'r Bydwagedd i gyd yn hyderus, a ninnau'n gwybod eu bod yn hyderus eu bod yn gofyn ar y cyfle cyntaf posibl y mae'r ferch ar ei phen ei hun, rwyf yn meddwl mai hynny fyddai'r safon aur ddelfrydol'.

Rhwystrau i weithredu

Mae'r rhwystrau i weithredu llwyddiannus a nodir yn y gwerthusiad hwn yn adlewyrchu darganfyddiadau ymchwil arall, er enghraifft astudiaeth o ddarparwyr gofal iechyd yn America a'u hargraff o'r rhwystrau i weithredu ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref (Minsky-Kelly et al, 2005). Yn ôl Minsky-Kelly a'i chydweithwyr, cafwyd bod pum rhwystr yn bennaf i wneud ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref:

- (a) cwestiynau am ba mor briodol oedd, a gwerth sgrinio, o ystyried cyflwyniad y cleifion a'r sefyllfa glinigol
- (b) dim digon o arbenigedd gan ddarparwyr, gan greu teimladau o rwystredigaeth
- (c) pryderon am flaenoriaethau amser a llwyth gwaith
- (ch) pryderon am y broses sgrinio ei hun
- (d) pryderon am ganlyniad a pha mor effeithiol yw'r sgrinio (Minsky-Kelly et al, 2005, t.1293).

Mae'r categorïau hyn yn cyd-fynd yn union â'r rhwystrau y soniwyd amdanynt gan y rhai a gymrodd ran yn y gwerthusiad hwn, ac eithrio bod y rhai a holwyd ar gyfer yr astudiaeth hon ar y cyfan yn gefnogol iawn o'r egwyddor a chanlyniadau dymunol yr ymholiad arferol. Yn astudiaeth Minsky-Kelly, roedd darparwyr iechyd yn cwestiynu ai eu cyfrifoldeb nhw oedd 'achub y byd' neu fynd i'r afael yn rhagweithiol â cham-drin yn y cartref (Minsky-Kelly et al, 2005, t. 1294). Ni ddaethpwyd ar draws yr agweddau hyn yn yr astudiaeth hon.

Daeth Minsky-Kelly a'i chydweithwyr i'r casgliad bod hyfforddiant parhaus i staff, adborth i staff ar gleifion sy'n cael eu helpu, datrys pryderon preifatrwydd a hyblygrwydd ynghylch pryd i sgrinio cleifion, i gyd yn ffactorau angenrheidiol i oresgyn rhai o'r rhwystrau i weithredu'r ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref. Cefnogir darganfyddiadau Minsky-Kelly gan y gwerthusiad hwn.

Rhwystrau difrifol eraill yn ôl darganfyddiadau'r gwerthusiad oedd natur wahanol y cyfathrebu rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mewn rhai achosion, roedd llif y wybodaeth yn dda iawn rhwng y ddau grŵp ac eglurwyd hyn gan amgylchiadau hanesyddol fel cael eu cydleoli neu fod proses drosglwyddo ffurfiol effeithiol yn ei lle. Un pwrpas y Llwybr yw datrys unrhyw broblemau cyfathrebu rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd. Mae'n debyg y daw'r Llwybr yn rhan o'r ateb i broblemau cyfathrebu. Bydd yn cymryd amser i brofi'r ddamcaniaeth hon, ond gwersi pwysig ar gyfer gweithredu yn y cam hwn yw y dylid monitro'r union ddefnydd a wneir o ffurflenni'r Llwybr a sicrhau bod pob gweithiwr iechyd yn gwybod lle mae'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2 yn cael eu cadw fel y medrant gael gafael arnynt pe bai angen. Byddai hyn yn gwella'r cyfathrebu rhwng Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd.

Mewn ardaloedd lle mae'r Llwybr yn llai aeddfed, nid yw gweithwyr iechyd yn sicr sut y mae'r ffurflenni'n cael eu casglu a'u storio. Mewn ardaloedd o weithredu isel, ymddengys bod rhywfaint o ddryswch a phetruso ynghylch lle i gadw'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2 a sut y dylid eu dosbarthu i weithwyr iechyd. Mae hyn wedi gweithio'n well mewn ardaloedd lle mae un person yn gyfrifol am goladu a chydlynu'r ffurflenni. Mae cael un person i fod yn gyfrifol am gasglu a storio'r ffurflenni hefyd yn helpu uwch ymarferwyr iechyd i fonitro'r defnydd a wneir o waith papur y Llwybr.

Fel y dywedodd un uwch weithiwr iechyd, 'nid yw rhai Bydwagedd yn llenwi'r ffurflenni o gwbl'. Dylai fod system yn ei lle i ddelio gydag achosion lle nad yw'r ffurflenni'n cael eu llenwi, er enghraifft mewn un ardal astudiaeth achos, mae un person yn casglu'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2 ac yn eu hanfon yn ôl at y Bydwagedd os nad ydynt wedi eu llenwi'n iawn.

Mae rhwystrau eraill i weithredu a ganfuwyd gan yr arolwg hwn wedi eu hadlewyrchu mewn gwaith ymchwil arall, er enghraifft gan Waalen et al (2000) a Stenson et al (2005). Mae'r ddwy astudiaeth hon yn sôn am y problemau sydd gan weithwyr iechyd gyda dod o hyd i amser cyfrinachol gyda merched a bod cleifion yn methu â siarad am eu camdriniaeth oherwydd ofn neu stigma. Mae Waalen et al a Stenson et al hefyd yn cyfeirio at y rhwystrau strwythurol, fel prinder amser staff ac adnoddau, i ddelio gyda cham-drin yn y cartref. Canfuwyd y problemau hyn gan y gwaith ymchwil hwn hefyd.

Cynigiwyd atebion i'r rhwystrau gweithredu gan y rhai a ymatebodd i'r astudiaeth hon. Teimlai nifer ohonynt, wrth i amser fynd heibio ac wrth i fwy o ddefnydd gael ei wneud o'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2, y byddai gweithwyr iechyd yn dod yn fwy hyderus yn eu defnyddio. Mae Ymddiriedolaethau'r GIG yn ceisio dyfeisio eu ffyrdd eu hunain o oresgyn y problemau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i amser preifat gyda merched. Er enghraifft, mae un

Ymddiriedolaeth yn trafod rhoi sticeri mewn toiledau merched fel y medrant eu glynu wrth eu samplau wrin i ddweud bod arnynt eisiau siarad gyda rhywun yn breifat. Efallai na fyddai'r datblygiadau hyn wedi digwydd oni bai am y Llwybr.

Mae'r Llwybr yn ymddangos i fod wedi bod yn gatalydd i newid arferion cyffredinol yng nghyswllt cam-drin yn y cartref, sy'n ganlyniad da. Wrth i Ymddiriedolaethau chwilio am ffyrdd o sicrhau bod y Llwybr yn cael ei weithredu'n effeithiol, maen nhw'n dysgu arferion gorau o ran sut i ddelio gyda cham-drin yn y cartref yn fwy cyffredinol.

4) Polisi ar gyfer y dyfodol

Astudiaeth Delffi

Anelwyd astudiaeth Delffi at ddeg o bobl allweddol a oedd â diddordeb strategol a gweithredol yn y Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan ac a fyddai'n gallu cyfrannu at drafodaeth am sut i gyflwyno'r Llwybr i feysydd gofal ieuchyd eraill. Daeth y cyfranogwyr o amryw o asiantaethau o fewn y maes ieuchyd, diogelwch cymunedol ac o fudiadau gwirfoddol. Dangosir canlyniadau Astudiaeth Delffi yn nhabl un-ar-ddeg isod. Rhoddwyd pum opsiwn i'r rhai a gymrodd ran ynddi, o 'cytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf', sy'n amrywio o un am y naill a phump am y llall. Mae datganiadau gydag atebion gwerth mwy na 2.5 wedi eu hamlygu'n las. Gyda'r datganiadau hyn oedd y lleiaf o gytundeb.

Tabl un-ar-ddeg: Atebion i Astudiaeth Delffi (1= cytuno'n gryf, 5 = anghytuno'n gryf)

Datganiad	Rownd 1	Rownd 2
C1) I sicrhau yr ymdrinnir â cham-drin yn y cartref yn effeithiol mewn sefyllfaoedd gofal ieuchyd, rhwng eich barn am y datganiadau canlynol:		
Dylai cam-drin yn y cartref fod yn rhan o'r asesiad arferol o bob claf	1.7	1.9
Dylid holi am gam-drin yn y cartref yn ystod y cyswllt cyntaf â'r claf	2.7	2.3
Dylid ond delio gyda cham-drin yn y cartref fel rhan o berthynas barhaus rhwng gweithiwr ieuchyd a chlaf	4.1	3.7
Mae cam-drin yn y cartref yn fater o ieuchyd cyhoeddus a dylai fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaethau ieuchyd	1.6	1.4
Dylai cam-drin yn y cartref gael ei adnabod gan staff gofal ieuchyd ond asiantaethau eraill a ddylai ddelio â'r mater yn y tymor hir	2	2.4
Dim ond staff sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig a ddylai wneud yr ymholiad	1.8	2.0
C2) Beth yn eich barn chi yw'r pethau pwysicaf am y llwybr cam-drin yn y cartref mewn sefyllfa gofal ieuchyd i sicrhau ei fod yn effeithiol.		
Bod staff yn gallu cael preifatrwydd gyda'r claf (gan gynnwys preifatrwydd heb berthnasau agos yn bresennol)	1.3	2.1
Bod gan staff amser i siarad gyda chleifion i roi'r cyfle iddynt drafod cam-drin yn y cartref	1.8	2.0
Bod staff yn deall eu dyletswydd i amddiffyn plant mewn achosion	1.3	1.0

cam-drin yn y cartref		
Bod gan asiantaethau iechyd berthynas weithio dda gydag asiantaethau cymorth fel Cymorth i Fenywod	1.5	1.9
Bod goruchwyliaeth glinigol ar gael i staff i ddelio gyda phroblemau cam-drin yn y cartref	1.3	2.0
C3) Pa rai o'r canlynol yn eich barn chi a fyddai'n rhwystro cyflwyno'r ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref mewn sefyllfaoedd gofal iechyd:		
Prinder amser gan weithwyr gofal iechyd	2.5	2.4
Trafferth gyda gweld cleifion ar eu pen eu hunain	1.6	1.9
Staff yn gyndyn o ddelio gyda cham-drin yn y cartref fel rhan o'u hymarfer	2.0	1.9
Prinder adnoddau i hyfforddi staff yn ddigonol	2.3	2.7
C4) Ym mha rai o'r sefyllfaoedd canlynol y credwch y dylid cyflwyno'r ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref?		
Sefyllfaoedd gofal sylfaenol	1.6	1.6
Sefyllfaoedd gofal iechyd meddwl	1.4	1.3
Canolfannau triniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol a sylweddau	1.2	1.3
Clinigau iechyd rhywiol a GUM	1.2	1.3
Canolfannau iechyd plant (fel canolfannau plant)	1.5	1.6
Clinigau iechyd merched	1.6	1.4
Clinigau i ddynion hoyw a deurywiol	1.5	1.4
Clinigau i bobl ifanc o dan 19 oed	1.5	1.4
Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	amher.	1.0
Unedau mân anafiadau	amher.	1.4
Canolfannau Galw i Mewn	amher.	1.3
Canolfannau i'r Henoed	amher.	1.3

Y datganiad yr oedd lleiaf o gytundeb yn ei gylch oedd 'Dylid ond delio gyda cham-drin yn y cartref fel rhan o berthynas barhaus rhwng gweithiwr iechyd a chlaf'.

Teimlwyd yn gyffredinol bod 'ymholiad arferol' yn bolisi da ac y dylid ei fabwysiadu'n ehangach. Yn enwedig, teimlwyd y dylid cyflwyno'r ymholiad arferol i ystod o sectorau eraill fel a restrir yng nghwestiwn pedwar yn astudiaeth Delffi.

Fforwm Polisi

Y prif bwyntiau i ddod allan o'r cyfarfod oedd y rhai canlynol.

a) Rhwystrau a wynebir gan ferched o gymunedau du a lleiafrifol ethnig

Tynnwyd sylw at y ffaith bod merched o gymunedau du a lleiafrifol ethnig yn wynebu rhwystrau arbennig gyda dod o hyd i gymorth, yn enwedig gyda chodi a thrafod problemau cam-drin yn y cartref i ddechrau. Mae hyn yn bennaf

oherwydd problemau iaith a thrafferthion cael amser preifat gyda merched i ffwrdd o aelodau eraill o'r teulu. Er bod y broblem preifatrwydd gyda chleifion yn un a wynebwr gan ferched eraill, teimlai'r cyfranogwyr yn y fforwm polisi fod hyn yn cael ei waethgu gan y broblem iaith. Efallai nad yw deunyddiau ysgrifenedig bob amser yn briodol gan fod rhai merched o gymunedau du a lleiafrifol ethnig yn methu â darllen yn eu hiaith.

Bu'r fforwm polisi'n trafod trafferthion cael gafael ar gyfieithu i ferched a deimlai fod ei angen arnynt. Fel arfer, defnyddir Language Line i ddarparu cyfieithu ond teimlwyd ei fod yn anodd i'w drefnu ac, o ganlyniad, yn cael ei esgeuluso'n aml. Gan fod Ymddiriedolaethau'n cael eu cynghori'n gryf i beidio â defnyddio aelodau o'r teulu i gyfieithu neu ddehongli mewn ymholiad arferol, mae'r rhwystr iaith yn arbennig o broblematig. Roedd cynrychiolydd o'r Black Association of Women Step Out (BAWSO), mudiad i ferched du a lleiafrifol ethnig, a fynychodd y fforwm polisi, yn awyddus i sicrhau bod deunyddiau BAWSO ar gam-drin yn y cartref yn cael eu hintegreiddio yn y Llwybr. Roedd y cynrychiolydd o BAWSO hefyd yn awyddus i sicrhau bod y Grŵp Rhwydweithio Cymru Gyfan yn cyfathrebu gyda BAWSO i sefydlu arferion da yng nghyswllt gweithio gyda merched o gymunedau du a lleiafrifol ethnig.²

b) Trafferthion dod o hyd i amser preifat gyda merched i gyflawni'r ymholiad arferol

Trafodwyd y broblem hon ynfaith yn y fforwm polisi. Teimlai'r cyfranogwyr gan fod ymarfer cynenedigol yn fwy diweddar wedi bod yn ceisio annog dynion i gyfrannu mwy at feichiogrwydd eu partner, ei bod yn anodd bellach mynnu cael amser preifat gyda merched.

Teimlai'r cyfranogwyr hefyd y byddai Bydwagedd ac Ymwelwyr lechyd mwy hyderus a phrofiadol yn gallu dyfeisio amser preifat gyda merched yn haws ac y gallent 'orchymyn' bod dynion yn gadael. Fodd bynnag, i ymarferwyr llai hyderus, gallai fod yn fwy o broblem.

Argymhelliad y fforwm polisi yw y dylai pob Ymddiriedolaeth asesu pa mor ymarferol yw cael polisi ar draws yr Ymddiriedolaeth o drefnu amser preifat gyda merched yn ystod eu beichiogrwydd. Byddai'r amser hwn yn cael ei ddefnyddio nid yn unig i drafod cam-drin yn y cartref ond hefyd unrhyw faterion sensitif eraill na fyddai'r merched efallai eisiau eu trafod.

² *Yr Iaith Gymraeg:*

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw ffurflenni na deunyddiau hyfforddi'r Llwybr wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg eto. Fodd bynnag, mae'r arfau at ddefnydd proffesiynol ac, mewn theori, mae merched claf yn gallu cael gafael ar Fydwaig neu Ymwelydd lechyd sy'n siarad Cymraeg a fyddai'n gallu cyfieithu fel bo angen. Ni chodwyd yr angen am gyfieithu i'r iaith Gymraeg fel problem yn ystod y fforwm polisi na'r ymchwil maes, ond ni roddwyd sylw i hyn yn benodol wrth ddylunio'r ymchwil.

Awgrymwyd hefyd y dylai Cymorth i Fenywod Cymru weithio gyda'r Grŵp Rhwydweithio i sicrhau na fyddai unrhyw ganlyniad negyddol yn dod o unrhyw bolisi 'preifatrwydd' o'r fath.

c) Cyfathrebu rhwng Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd

Cafodd y broblem o gyfathrebu rhwng Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd hefyd ei thrafod yn y fforwm polisi. Cafodd ei gydnabod bod y broblem hon yn bodoli'n fwy cyffredinol mewn ymarfer Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd ac nid yn nhermau'r Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol yn unig. Penderfynwyd y byddai uwch Ymwelwyr Iechyd a Bydwragedd yn sicrhau, drwy archwilio a monitro, bod y wybodaeth am yr ymholiadau RE DA1 a RE DA2 yn cael ei throsglwyddo mewn da bryd. Cytunwyd hefyd y byddai cynrychiolydd y Llwybr o bob Ymddiriedolaeth yn datblygu ac yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Rhwydweithio ar sut y byddent yn mynd ati i drosglwyddo gwybodaeth rhwng Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd. Gallai hon fod drwy drosglwyddo nodiadau teuluol yn ffurfiol, fel yn achos Sir Gaerfyrddin.

5) Trosglwyddo'r Llwybr i sefyllfaoedd gofal iechyd eraill.

Ar hyn o bryd, mae'r Llwybr Cam-drin yn y Cartref yn cael ei ddatblygu mewn sefyllfaoedd Damweiniau ac Achosion Brys a Gynaecoleg ledled Cymru. Mae cyflwyniad y Llwybr yn cael ei gefnogi gan ddau staff ar secondiad sydd wrthi'n datblygu safonau a phrosesau ar gyfer pob sefyllfa.

Bydd dysgu o werthuso'r Llwybr yn dilyn ei ddefnyddio gan Fydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd yn goleuo datblygiad y gwaith hwn.

Rhagarweiniad

Un agwedd ar y gwerthusiad hwn oedd ystyried sut y gellid cyflwyno prosesau'r Llwybr i gyd-destunau gofal iechyd eraill.

Man cychwyn pwysig ar gyfer y cwestiwn hwn yw ystyried yr agweddau normadol ar y Llwybr. Hynny yw, beth y mae'r Llwybr *i fod i'w wneud* a pha ganlyniadau sy'n *ddymunol*. Bydd y 'prawf' cyntaf o a ellir cyflwyno'r prosiect i sefyllfaoedd eraill yn dibynnu ar i ba raddau y mae canlyniadau dymunol a rhesymeg y Llwybr yn berthnasol i sefyllfaoedd eraill ar wahân i'r un Cynenedigol.

Mae rhesymeg a chanlyniadau dymunol y Llwybr fel a ganlyn:

- Cyflwyno newidiadau mewn agweddau a hyder staff proffesiynol
- Gwellu diogelwch merched a phlant
- Hybu ymwybyddiaeth o gam-drin yn y cartref a'i effaith ar iechyd
- Hybu ymwybyddiaeth ymhlith merched nad oes yn rhaid i gam-drin yn y cartref gael ei oddef.

Gellir trosglwyddo canlyniadau dymunol ac amcanion y Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan i gyd-destunau gofal iechyd eraill. Fodd bynnag, o'i ddefnyddio mewn sefyllfaoedd eraill, ni fyddai'r ffocws o anghenraid ar ferched a phlant yn y groth ond ar unrhyw un a allai ddioddef.

A ellir trosglwyddo ffactorau'r Llwybr?

Drwy gydol y gwerthusiad hwn, ceisiwyd mesur dealltwriaeth staff o ffactorau pwysicaf y Llwybr. Bydd a ellir cyflwyno'r Llwybr i sefyllfaoedd eraill yn dibynnu ar i ba raddau y gellir cyflwyno'r ffactorau hyn mewn cyd-destunau eraill. Roedd y prif ffactorau fel a ganlyn:

- staff wedi eu hyfforddi'n ddigonol
- diweddariadau a / neu hyfforddiant gloywi ar gam-drin yn y cartref i weithwyr iechyd
- polisi Adnoddau Dynol i staff sy'n profi cam-drin yn y cartref
- system fonitro i sicrhau bod y Llwybr yn cael ei ddefnyddio fel rhan o ymarfer
- cyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau o fewn y gwasanaeth iechyd a'r tu allan iddo.

Gellid cymhwyso'r ffactorau hyn i sefyllfaoedd eraill, nid i wasanaethau Bydwagedd ac Ymwelwyr Iechyd yn unig y maen nhw'n berthnasol. Fodd bynnag, i'w cyflwyno, bydd angen adnoddau ar y ffactorau hyn. Er enghraifft, mae hyfforddiant yn gostus ac yn gofyn bod staff yn treulio amser i ffwrdd o'u hymarfer arferol i'w dderbyn. Bydd hyn yn fwy ymarferol mewn rhai sefyllfaoedd nag eraill. Profiad y Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan yw bod yr hyfforddiant yn effeithiol yn ei ffurf bresennol, gyda sesiynau didactig hanner diwrnod a deunyddiau cefnogi. Fodd bynnag, gyda phrosiectau eraill, er enghraifft ymholiad arferol mewn adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Awstralia, derbyniodd y staff hyfforddiant a oedd yn para rhwng 20-45 munud a derbyniodd staff allweddol rhwng tair a chwech awr (Ramsay et al, 2005, t. 35). Dylid sefydlu faint o hyfforddiant cam-drin yn y cartref sydd ei angen mewn cyd-destunau gofal iechyd eraill o'r dechrau cyn cyflwyno'r ymholiad arferol. Hefyd, cafwyd bod goruchwyliaeth a chymorth clinigol ar gyfer delio â cham-drin yn y cartref yn ffactor bwysig yn y gwerthusiad hwn. Eto, mae gan yr oruchwyliaeth a'r cymorth hwn oblygiadau adnoddau a bydd angen ystyried hyn cyn cyflwyno'r Llwybr i sefyllfaoedd eraill.

Mewn rhai meysydd, teimlwyd mai un o ffactorau hanfodol y Llwybr oedd y berthynas barhaus rhwng y gweithiwr iechyd a'i chleifion. Mewn cyd-destunau fel Damweiniau ac Achosion Brys, clinigau iechyd rhywiol, cleifion allanol neu sefyllfaoedd eraill lle mae'r berthynas rhwng y claf a'r ymarferwr iechyd yn dymor byr, yn amlwg ni fyddai hyn yn bosibl.

At ei gilydd, nid yw perthynas barhaus rhwng ymarferwyr iechyd a chleifion yn ffactor hanfodol o ran sicrhau bod y Llwybr yn cyflawni ei ganlyniadau.

Yn wir, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn astudiaeth Delffi yn anghytuno gyda'r datganiad '*Dylid ond delio gyda cham-drin yn y cartref fel rhan o berthynas barhaus rhwng gweithiwr iechyd a chlaf*'. Yn ogystal, mae'r ymweliad astudiaeth achos i un ward lafur wedi'i harwain gan Fydwagedd lle'r oedd y cleifion ond yn dod i adnabod y gweithwyr am gyfnod byr, yn dangos nad oes perthynas tymor hir rhwng ymarferwyr iechyd a chleifion.

Teimlai rhai gweithwyr iechyd a holwyd yn ystod y gwerthusiad mai ymweliad cartref oedd y sefyllfa orau i wneud ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref. Fodd bynnag, roedd rhai o'r ymatebwyr yn anghytuno â hyn ac yn teimlo ei bod yn ormod o risg i'r ymarferwr iechyd a'r ferch gyflawni ymholiad o'r fath yn y cartref.

Nid oes angen i ymholiad arferol gael ei gyflawni yng nghartref y claf.

Rhwystrau i weithredu a gwersi ar gyfer cyflwyno'r Llwybr yn y dyfodol

Edrychwyd ar nifer o rwystrau i weithredu'r Llwybr yn ystod y gwerthusiad. Byddai angen rhoi sylw i'r rhwystrau hyn cyn cyflwyno'r Llwybr i sefyllfaoedd gofal iechyd eraill.

Efallai y bydd rhai Ymddiriedolaethau a sefyllfaoedd yn wynebu problemau oherwydd maint ac ehangder. Gallai hyn olygu ei bod yn amser hir cyn y medrant sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael eu hyfforddi, gan arwain at oedi rhwng pryd y derbyniodd y staff cyntaf eu hyfforddiant a gweithrediad y Llwybr.

Dylai cyrff mwy ystyried sut i reoli cyflwyniad y Llwybr fel bod ei weithrediad yn dilyn hyfforddiant y staff yn ddi-oed. Gallai hyn olygu cyflwyno'r Llwybr mewn un lleoliad gofal iechyd ar y tro, yn hytrach nag ar draws Ymddiriedolaethau cyfan.

Mae ardaloedd gwledig yn cyflwyno problemau arbennig wrth geisio hyfforddi ymarferwyr iechyd yn y gymuned. Y rheswm am hyn yw bod dosbarthiad daearyddol eang yr ardal yn ei gwneud yn anodd i rai staff fynychu rhywle canolog. I ymarferwyr fel nyrsys ardal, neu i weithwyr allgymorth, dylid ystyried y broblem hon.

Rhwystyr pwysig arall y soniwyd amdano yn ystod y gwerthusiad oedd sicrhau bod y gwaith papur angenrheidiol (ffurflenni RE DA1 a RE DA2) yn cael eu storio a'u pasio ymlaen i ymarferwyr iechyd eraill. Yn amlwg, wrth i'r Llwybr gael ei gyflwyno i sefyllfaoedd gofal iechyd eraill, bydd mwy o bartneriaid i rannu gwybodaeth gyda nhw a daw casglu a storio data yn fwyfwy pwysig. Mae angen cael aelod penodol o'r staff i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw a'u cyfeirio atynt fel bo angen.

Dylid sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd rhwng gwahanol adrannau a chyrff gofal iechyd drwy ddefnyddio protocolau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am gam-drin yn y cartref. Byddai hyn yn arbennig o bwysig mewn sefyllfaoedd lle mae trosiant staff uchel.

Un o'r rhwystrau pwysicaf yn ôl Bydwragedd ac Ymwelwyr lechyd oedd y drafferth cael amser cyfrinachol ar eu pen eu hunain gyda chleifion i wneud ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref. Teimlwyd bod hyn yn arbennig o anodd yn y cyfnod cynenedigol oherwydd bod partneriaid yn aml yn dod gyda chleifion i rannu yn eu cyffro a'u disgwyl. Teimlwyd hefyd gan fod tadau wedi cael eu hannog i 'gyfrannu' at ofal merched a'r plentyn yn y groth, bod gofyn am amser preifat yn mynd yn groes i hyn. Mewn sefyllfaoedd eraill, lle mae'n 'normal' cael amser preifat gyda chleifion, gallai hyn fod yn llai o broblem.

6) Crynodeb

Mae'r Llwybr Cam-drin yn y Cartref Cynenedigol Cymru Gyfan wedi cael ei ddatblygu ar sail tystiolaeth glir gan dîm dynodedig o bobl sy'n gweithio yn y maes Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd, ac sy'n cydnabod pa mor bwysig yw cam-drin yn y cartref fel pryder *iechyd*.

Roedd y canlyniadau dymunol a'r rhesymeg yn glir iawn i'r rhai a oedd yn gweithredu'r Llwybr, sef cynrychiolwyr yr Ymddiriedolaethau a oedd yn perthyn i Grŵp Rhwydweithio Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan, Cadeirydd y grŵp a'r uwch fydwaig ar secondiad o Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg a fu'n rhan o ddatblygu'r arfau ar gyfer y Llwybr. Bu'r arweinydd nyrsio yn Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn chwarae rôl greiddiol.

Teimlwyd fod hyfforddiant y Llwybr yn effeithiol iawn gan y rhai a'i derbyniodd. Roedd yn ffit i'w bwrpas ac yn rhoi sylw i faterion sydd wedi eu cofnodi mewn tystiolaeth gan astudiaethau eraill i wasanaethau iechyd a cham-drin yn y cartref. Roedd yr hyfforddiant hefyd yn rhoi sylw i rai o'r problemau hanesyddol y soniwyd amdanynt gan weithwyr iechyd wrth iddynt geisio delio â cham-drin yn y cartref yn eu hymarfer. Teimlwyd fod elfennau arbennig o'r hyfforddiant, fel darparu ystadegau cyffredinol ar effaith a pha mor gyffredin oedd cam-drin yn y cartref, yn arwain at newid mewn ymarfer ac agweddau ymhlith gweithwyr iechyd.

Ar y cyfan, roedd lefelau hyder wrth ddelio gyda'r prif faterion a wynebwyd gan weithwyr iechyd sy'n ceisio mynd i'r afael â cham-drin yn y cartref yn uchel, o ganlyniad i'r hyfforddiant a gawsant.

<i>O ran y canlyniadau a gyflawnir gan y Llwybr, roedd mwy o hyder ac ymwybyddiaeth ymhlith staff iechyd proffesiynol yn un o'r llwyddiannau.</i>

Mae'r ffaith bod cynifer o weithwyr iechyd wedi derbyn hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth hefyd yn ganlyniad pwysig.

Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith eto i'w wneud. Mae hyn i'w ddisgwyl gan ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd ar y Llwybr. Mae tair Ymddiriedolaeth sydd dal heb weithredu'r Llwybr.

Mewn nifer o achosion, roedd gweithwyr iechyd dal yn lleisio pryder ynghylch sut y dylid defnyddio'r ffurflenni ymholiad arferol RE DA 1 a RE DA2 a sut y bydd y wybodaeth ar y ffurflenni'n cael ei rhannu. Mae gweithwyr iechyd yn ymwybodol bod y Llwybr yn ei le ac yn disgwyl ei weld ar waith. Lle nad yw hyn eto'n digwydd, oherwydd nad yw'r ffurflenni'n 'dod drwodd' eto, mae hyn wedi creu rhywfaint o bryder a disgwyliad.

Fodd bynnag, y disgwyl yw, unwaith y bydd gweithwyr iechyd wedi arfer â ffurflenni'r Llwybr, y byddant yn dod yn rhan o ymarfer arferol ac y bydd Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd yn fwy cyffyrddus gyda'r Llwybr. Dylid cefnogi'r broses hon o 'wreiddio'r' Llwybr drwy fonitro'n barhaus sut y mae'r

ffurflenni'n cael eu defnyddio a thrwy sicrhau bod goruchwyliaeth, deunyddiau a ffynonellau cyngor ar gael i weithwyr ieched.

Mae rhwystrau eraill sydd angen rhoi sylw iddynt ac na ellir eu hegluro gan oedi syml gyda gweithredu'r Llwybr. Yn bennaf, mae'r rhain yn ymwneud â thrafferthion dod o hyd i amser preifat neu gyfrinachol gyda merched, a rhwystrau iaith gyda merched o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig lle mae'r broblem o gael preifatrwydd yn waeth.

Cynghorir Ymddiriedolaethau i ystyried pa mor ymarferol fyddai cael polisi preifatrwydd gyda'r holl gleifion cynenedigol fel mater o drefn.

Yn gyffredinol, mae gweithrediad y Llwybr wedi bod yn llwyddiannus. Mae'n rhy fuan rhoi dadansoddiad llawn o ganlyniadau ac effaith y Llwybr oherwydd ei fod dal yn anaeddfed. Fodd bynnag, yn ôl adborth buan gan archwiliad i ddefnyddio'r ffurflenni RE DA1 a RE DA2, mae rhai Ymddiriedolaethau wedi gallu sicrhau cyfradd ymholi mor uchel â 87% ar gyfer ymholiadau RE DA1 (gofyn unwaith) a 69% (gofyn dwywaith)

Fodd bynnag, nod gwirioneddol y Llwybr yw sicrhau ymholiad arferol o 100% ar gyfer pob merch fel rhan o'i phecyn gofal arferol. Mae cryn ffordd i fynd cyn y cyflawnir hynny ar draws Cymru. Barn y gwerthuswyr yw y dylai'r gyfradd ymholi ar gyfer RE DA1 (gofyn dwywaith), erbyn diwedd 2007, fod yn 80% o leiaf ym mhob Ymddiriedolaeth. Cyflawnir hyn ond os yw'r defnydd a wneir o'r arfau yn cael ei fonitro'n agos ar lefel leol.

Un o ganlyniadau allweddol y Llwybr yw ei fod wedi cynhyrchu trafodaeth a meddwl am gam-drin yn y cartref yn fwy cyffredinol. Mae'r Llwybr wedi bod yn gatalydd i newid arferion. Mewn nifer o achosion, mae'r Llwybr wedi ysgogi trafodaeth ynghylch sut i lunio gwasanaethau fel bod merched yn cael amser cyfrinachol gyda Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd. Mae cyflwyniad y Llwybr hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cam-drin yn y cartref fel mater i staff y GIG yng Nghymru ac wedi annog datblygu polisiâu cam-drin yn y cartref ar gyfer staff mewnol.

Mae'r gwerthusiad hwn wedi dangos bod cyflwyniad y Llwybr wedi bod yn gyfrwng i newid pethau drwy annog ffyrdd newydd o feddwl am, a mynd i'r afael â cham-drin yn y cartref yn y cyd-destun gofal iechyd.

7) Argymhellion

Mae'r rhestr ganlynol o argymhellion wedi cael ei datblygu o ddarganfyddiadau'r ymchwil ac o waith datblygu polisi. Mae fframwaith monitro a gwerthuso, i gefnogi'r argymhellion hyn, wedi cael ei ddatblygu ac wedi'i gynnwys yn Atodiad chwech.

Gallu cyflawni ymholiad arferol i gam-drin yn y cartref gyda phob merch:

- Dylai pob Ymddiriedolaeth asesu pa mor ymarferol yw datblygu polisi preifatrwydd ar draws yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod cynnedigol lle mae merched yn cael eu gweld yn breifat, fel mater o drefn.
- Dylai'r Grŵp Rhwydweithio weithio gyda chyrff sy'n cynrychioli merched o Gymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig i sicrhau bod materion rhwystrau iaith neu rwystrau diwylliannol eraill i wneud ymholiad arferol yn cael sylw.
